Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

HM Courts & Tribunals Service

# Cynllun Iaith Gymraeg
# Welsh Language Scheme

2018-2021



# Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

2018-2021

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

# HM Courts & Tribunals Service Welsh Language Scheme

2018-2021

Prepared under the Welsh Language Act 1993

## Datganiad Polisi Cynllun Iaith Gymraeg

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd GLlTEM yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## Welsh Language Scheme Policy Statement

HM Courts & Tribunals Service has adopted the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales it will treat the Welsh and English languages on a basis of equality. This scheme sets out how HM Courts & Tribunals Service will give effect to that principle when providing services to the public in Wales.

# cynnwys contents


| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagair | 6 | Foreword | 6 |
| Yr hyn a wnawn | 8 | What we do | 8 |
| Ein ffocws ar gyfer y dyfodol | 10 | Our focus for the future | 10 |
| Cyfrifoldeb am y Cynllun | 12 | Responsibility for the Scheme | 12 |
| Cynllunio a Darparu Gwasanaeth | 14 | Service Planning and Delivery | 4 |
| Ein darpariaeth Iaith Gymraeg | 16 | Our Welsh Language provision | 16 |
| Ein darpariaeth ar gyfer yr Ynadaeth | 29 | Our provision for the Magistracy | 29 |
| Delwedd Gyhoeddus y Sefydliad | 31 | The Organisation's public image | 31 |
| Ein darpariaeth ar gyfer Staf | 34 | Our provision for Staff | 34 |
| Gweithredu a Monitro | 36 | Implementation and monitoring | 36 |
| Staffio | 37 | Staffing | 37 |
| Trefniadau Gweinyddol | 39 | Administrative arrangements | 39 |
| Boddhad, Cwynion a Monitro | 41 | Satisfaction, Complaints and Monitoring | 41 |
| Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun | 44 | Publicising the scheme | 44 |
| Atodiad I | 45 | Annex I | 45 |
| Atodiad II | 48 | Annex II | 48 |
| Atodiad III | 52 | Annex III | 52 |
| Atodiad IV | 60 | Annex IV | 60 |
| Atodiad V | 61 | Annex V | 61 |

# rhagair foreword



## gan Susan Acland-Hood, Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

## by Susan Acland-Hood, Chief Executive of HM Courts & Tribunals Service

Mae cryn dipyn wedi newid ers i WLlTEM lansio ei Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf yn 2013. Rydym bellach wedi cychwyn ar raglen chwe blynedd i newid ein ffordd o weithio yn llwyr ac i wneud ein gwasanaethau yn well i'r dinasyddion a fydd yn eu defnyddio. Bydd ein rhaglen ddiwygio yn cyflwyno ffyrdd cwbl newydd o gael mynediad at gyfiawnder, gan ailwampio ein gwasanaethau fel eu bod yn gweithio'n well i'n holl ddefnyddwyr. Byddwn yn ymdrin â materion syml yn gyflym ar-lein; fe fydd y defnydd a wneir o gyswllt fideo yn y llysoedd yn cynyddu; fe fydd gennym lai o adeiladau llys a thribiwnlysoedd ond fe fyddant yn well adeiladau; ac fe fydd ffocws ein staff talentog a gwybodus yn gyfan gwbl ar y cwsmer.

Mae cyfathrebu yn yr iaith gywir yn greiddiol i sicrhau ein bod yn cyfarfod disgwyliadau defnyddwyr ein gwasanaethau sy'n Gymraeg eu hiaith. Ni ddylai unrhyw un orfod gofyn am wasanaeth Cymraeg. – dylai fod yn gwbl ddiofyn. Dylai siaradwyr Cymraeg ddisgwyl manteisio fel pawb arall ar y newidiadau unwaith mewn cenhedlaeth yr ydym yn ei wneud i'n gwasanaethau.

Rwy'n falch bod Gwasanaeth Llysoedd & Thribiwnlysoedd EM wedi cymryd camau cadarnhaol iawn i wella ein gwasanaethau Cymraeg yn y blynyddoedd diwethaf trwy ddatblygu ein llinell gymorth Cymraeg a chryfhau'r ffordd rydyn yn rheoli materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi

A lot has changed since HM Courts & Tribunals first launched our Welsh Language Scheme in 2013. We have now begun a six-year programme to completely change what we do and make our services better for the citizens who use them. Our programme of reform will provide entirely new ways to access justice, re-shaping our services so that they work best for all users. Simple matters will be dealt with rapidly online; there will be exponentially more use of video in court; we will have fewer, but better, court and tribunal buildings; and our skilled and knowledgeable staff will be entirely customer- focussed.

Addressing people in the right language is fundamental to ensuring that we are able to meet the expectations of Welsh-speaking users of our services. No one should have to ask for a service to be provided to them in Welsh - it should be readily accessible by default. Welsh speakers should expect to benefit in just the same way as everyone else from the once-in-a-generation changes that we are making to our service.

I am pleased that HM Courts & Tribunals have taken some really positive steps in recent years to improve our Welsh language services by developing our Welsh language helpline and strengthening our governance around Welsh language matters. We have also invested heavily in developing Welsh language capability

buddsoddi'n sylweddol i ddatblygu gallu o ran y Gymraeg o fewn ein gweithlu.  Mae hyn yn rhoi platfform cryf iawn inni barhau i adeiladu ar y nod hwn i ddarparu gwasanaeth Cymraeg sy'n diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yr unfed ganrif ar hugain.

within our workforce.  This gives us a very strong platform on which to continue to build upon in order to provide a Welsh service that meets the expectations of 21st Century Welsh speakers.

Fel y Prif Weithredwyr o'm blaen, mae'n bleser gennyf i roi fy nghefnogaeth lawn i'r cynllun gan gefnogi ei gynnwys.

Like my predecessors as Chief Executive, I am delighted to provide my full support to this scheme and to endorse its content.

**Susan Acland-Hood**
Prif Weithredwr / Chief Executive
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM / HM Courts & Tribunals Service

# 1 Yr hyn a wnawn

## Ein sefydliad

1.1. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymrwymo GLlTEM i gefnogi'n llwyr yr egwyddor sy'n sail i Ddeddf yr Iaith Gymraeg sef i drin pawb sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru, yn yr un modd â'r sawl sy'n dymuno defnyddio'r Saesneg. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut bydd GLlTEM yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a sut y bwriadwn ddod yn sefydliad mwy dwyieithog yn ystod cyfnod y Cynllun hwn.

1.2. Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â gwaith Llys y Goron, Llys Ynadon, yr Un Llys Sifil a'r Un Llys Teulu, y Tribiwnlys Cyflogaeth, y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches, y Llys Gwarchod a'r Gwasanaeth Profiant.

## Ein Cynllun

1.3. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymrwymo GLlTEM i gefnogi'n llwyr yr egwyddor sy'n sail i Ddeddf yr Iaith Gymraeg sef i drin pawb sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru, yn yr un modd â'r sawl sy'n dymuno defnyddio'r Saesneg. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut bydd GLlTEM yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a sut y bwriadwn ddod yn sefydliad mwy dwyieithog yn ystod cyfnod y Cynllun hwn.

# What we do

## Our organisation

1.1. HM Courts & Tribunals Service is an executive agency of the Ministry of Justice. We provide administrative support to the Supreme Court, County Courts, Magistrates' Courts, Tribunals and the Court of Protection. The Supreme Court consists of the Court of Appeal, the High Court (including the Probate Service) and the Crown Court.

1.2. This scheme covers the work of the Crown Court, Magistrates' Court, the Single Civil and Family court the Employment Tribunal, the Social Services and Child Support Tribunal, the Immigration and Asylum Tribunal, the Court of Protection and the Probate Service.

## Our Scheme

1.3. HM Courts & Tribunals Service's Welsh Language Scheme commits us to support fully the principle behind the Welsh Language Act, of treating those in Wales who wish to use Welsh, in the same way as those who wish to use English. This scheme sets out how we will give effect to that principle when providing services to the public in Wales and how we intend to become a more bilingual organisation during the period of this Scheme.

1.4. Dylech ddarllen cyfeiriadau yn y Cynllun hwn at y cyhoedd yn gyffredinol yn cynnwys aelodau'r proffesiwn cyfreithiol, awdurdodau lleol a phob awdurdod erlyn cyhoeddus eraill ac unrhyw grŵp budd penodol yng Nghymru y byddwn yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer.

1.4. You should read reference in this Scheme to the general public as including members of the legal profession, local authorities, all other public prosecuting authorities and any particular interest group in Wales to which we provide a service.

# 2 Ein ffocws ar gyfer y dyfodol

2.1 I wella ei ddarpariaeth Gymraeg yn barhaus, bydd ffocws Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'r dyfodol fel a ganlyn:

- Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid cyfiawnder eraill i sicrhau ein bod yn canfod dewis iaith mor fuan â phosibl ac yn cael ei gofnodi'n briodol ar bob cam yn y broses llys a'r tribiwnlys.
- Codi ymwybyddiaeth defnyddwyr Llys a'r Tribiwnlys o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg
- Sicrhau ymarferoldeb Cymraeg neu ddwyieithog o fewn platfformau digidol trafodaethol allweddol.
- Os ydym yn darparu gwasanaethau swyddfa gefn ar sail Cymru a Lloegr a fyddai wedi cael eu darparu yng Nghymru yn flaenorol, byddwn yn anelu at ddarparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg neu'n ddwyieithog i bobl sy'n byw yng Nghymru.
- Sicrhau bod ein canolfannau cyswllt i gwsmeriaid yn darparu gwasanaeth Cymraeg.
- Sicrhau bod unrhyw wasanaeth a ddarperir ar ein rhan gan ddarparwr trydydd parti yn anrhydeddu ymrwymiadau'r cynllun hwn.
- Datblygu'r Llinell Gymorth Cymraeg ymhellach yn ein Huned Iaith Gymraeg.
- Gwella'r ddarpariaeth o ran offer cyfieithu ym mhob un o'n canolfannau llys mwyaf.

# Our focus for the future

2.1 In order to continuously improve its Welsh language provision the focus of HM Courts & Tribunals Service for the future will be as follows:

- Working with other service users and justice partners to ensure that language choice is captured at the earliest possible stage and properly recorded at all points in the courts and tribunals process.
- Raising awareness of court and tribunal users rights to use Welsh.
- To ensure Welsh or bilingual functionality within key digital transactional platforms.
- If we provide back office services on an England and Wales basis which would previously have been provided within Wales, we aim to provide those services in Welsh or bilingually for people living in Wales.
- To ensure that our customer contact centres provide a Welsh language service.
- To ensure that any service provided on our behalf by a third party provider honours the commitments of this Scheme.
- Developing further a Welsh language telephone contact centre at our Welsh Language Unit.
- Improving the provision of translation equipment in all our major court centres.

- Gwneud yn siŵr bod pob aelod newydd o staff yn deall y pwysigrwydd o ddarparu gwasanaeth Cymraeg a darpariaethau'r Cynllun ac i allu cyflwyno eu hunain yn Gymraeg.
- Sicrhau bod ein holl gontractwyr yn gweithio i'r un safonau iaith drwy ddarparu canllawiau priodol ar gyfer pob cytundeb trydydd parti.
- Sicrhau ein bod yn casglu manylion yn gywir am yr achosion lle defnyddiwyd yr iaith Gymraeg naill ai trwy'r achos neu mewn rhan ohono.
- Gwella rheolaeth o ran recriwtio allanol fel bod rheolwyr sydd gyda swydd wag yn rhoi ystyriaeth briodol i ddynodi swyddi sy'n ymdrin gyda'r cyhoedd fel rhai sydd a'r Gymraeg yn hanfodol/dymunol  a hynny yn seiliedig ar gapasiti ieithyddol presennol a phroffil ieithyddol yr ardal a wasanaethir ganddynt.
- Parhau i gryfhau'r trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli gwasanaethau iaith Cymraeg yn gyffredinol.

- Requiring all new staff to have an understanding of the importance of providing a Welsh language service and the provisions of the Scheme and to be able to introduce themselves in Welsh.
- Ensuring that all our contractors work to the same language standards by providing appropriate guidelines for every third party agreement.
- To ensure we capture correctly all details of cases where the Welsh language was used in full or part.
- To improve governance around external recruitment so that vacancy managers give due consideration to the designation of key customer facing posts as Welsh essential/ desirable based on current linguistic capacity against the linguistic profile of the area they serve.
- To continue to strengthen the overall governance in relation to Welsh language services.

# 3 Cyfrifoldeb am y Cynllun

3.1. Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun hwn yn gyffredinol.

3.2. Cyfarwyddwr Cyflawni Cymru sy'n gyfrifol am y Cynllun yng Nghymru. Mae'r cyfrifoldeb am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg bob dydd wedi cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg gyda chymorth y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg.

3.3. Mae Cyfarwyddwr Ardal y Gwasanaeth Teulu a Phrofiant yn Llundain yn gyfrifol am y Gwasanaeth Profiant drwy Gymru a Lloegr. Mae wedi dirprwyo gweithrediad y cynllun hwn i'r Rheolwr Profiant yng Nghofrestrfa Brofiant Cymru a chewch ysgrifennu ato/ati os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwadau. Os ydych chi'n anfodlon ar yr ateb hwnnw, cewch ysgrifennu at Gyfarwyddwr Ardal y Gwasanaeth Teulu a Phrofiant.

3.4. Mae gweithredu a chyflwyno'r Cynllun hwn yn ein Pencadlys yn gyfrifoldeb ar y cyd, dan arweiniad y Pennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg. Byddwn yn sicrhau perthnasau gweithredol gyda phob un o'r Cyfarwyddiaeth Pencadlys mewn perthynas ag effaith newid yng Nghymru.

3.5. Yn ogystal ag Uned Iaith Gymraeg GLlTEM Cymru, bydd tîm o staff yn gyfrifol am gydlynu gweithredu'r Cynllun ar draws Cymru. Mae'r Rheolwyr Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau y gweithredir Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn eu Llysoedd a Thribiwnlysoedd. Bwrdd Rheoli Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno polisïau a mentrau a monitro cyflawni gwasanaeth.

# Responsibility for the Scheme

3.1. The Chief Executive of HM Courts & Tribunals Service has overall responsibility for the operation of this Scheme.

3.2. The Delivery Director for Wales is responsible for the Scheme in Wales. The day to day running of the Welsh Language Scheme is delegated to the Head of Welsh Language Services assisted by the Welsh Language Policy Officer.

3.3. The Family and Probate Service Area Director in London is responsible for the Probate Service throughout Wales and England and has delegated the operation of this scheme to the Probate Manager at the Probate Registry of Wales to whom you may write with any enquiries or comments. If you are dissatisfied with that reply, you may write to the Family and Probate Service Area Director.

3.4. The operation and implementation of the Scheme at our Headquarters is a collective responsibility, lead by the Head of Welsh Language Services. We will ensure working relationships with each of the HQ Directorates in relation to the impact of change in Wales.

3.5. As well as the HMCTS Wales Welsh language Unit a team of staff have responsibility for co-ordinating implementation of the Scheme across Wales. Operational Managers have responsibility to ensure that HM Courts & Tribunals Service's Welsh Language Scheme is implemented in their courts and tribunals. The Wales Management Board is responsible for taking forward policy and initiatives and to monitor service delivery.

3.6. Mae gennym hefyd Bencampwyr Iaith Gymraeg ym mhob llys/swyddfa. Eu rôl yw codi ymwybyddiaeth am y Cynllun a hyrwyddo dwyieithrwydd yn gyffredinol ar lefel swyddfa/llys.

3.6. We also have Welsh Language Champions in each court/office. Their role is to raise awareness of the Scheme and to generally promote bilingualism at court/office level.

# 4 Cynllunio a Darparu Gwasanaeth

## 4.1. Cynllunio

Wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau newydd, diweddaru'r rhai cyfredol neu wrth ystyried effaith polisïau a chynlluniau'r Llywodraeth yng Nghymru, byddwn yn rhoi sylw llawn i'w heffaith ar ddefnyddio'r Gymraeg. Ystyrir yr effaith a geir ar y defnydd o'r Gymraeg yn ogystal ag effaith unrhyw bolisi neu fenter newydd ar y naw nodwedd warchodedig. Mae templed dogfennau ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnwys adran sy'n cyfeirio at yr angen i asesu effaith unrhyw bolisi neu fenter newydd ar y defnydd o'r Gymraeg.

Mae Swyddogion Iaith Gymraeg GLlTEM hefyd yn gweithio'n agosach gydag arweinwyr yr iaith Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Cyfiawnder i wella ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn adrannau polisi a newid.

Ni chaiff y Cynllun ei newid heb gymeradwyaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## 4.2. Darparu

Hyrwyddir a hwylusir defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Rydym yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y gwasanaeth ac wrth iddo ymwneud â chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth ddarparu gwasanaeth ar gyfer pobl ym mhob cwr o Gymru, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg o'r un safon â'r hyn a ddarperir yn Saesneg. Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau'n gallu derbyn y gwasanaeth hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg o unrhyw un o'n llysoedd neu swyddfeydd tribiwnlys yng Nghymru neu unrhyw swyddfa sy'n darparu gwasanaeth a rennir ar gyfer Cymru a Lloegr ond sydd wedi'i leoli yn Lloegr. Os nad oes aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael, trefnir i gysylltu ag un.

# Service Planning and delivery

## 4.1. Planning

When developing new policies and procedures, updating current ones or considering the impact of Government policies and initiatives in Wales, we will have full regard to their consequences on the use of the Welsh language. The impact on the use of the Welsh language will be considered in addition to the impact of any new policy or initiative on the nine protected characteristics. The MoJ's consultation template contains a section within it referring to the need to assess the impact of any new policy initiative on the use of the Welsh language.

HMCTS Welsh Language Officers are also working increasingly closely with Welsh language leads within MoJ to improve Welsh language awareness within policy and change departments.

The Scheme will not be altered without the approval of the Welsh Language Commissioner.

## 4.2. Delivery

The use of Welsh is promoted and facilitated in Wales. We support the use of the Welsh language in our internal administration and in our dealings with other bodies that provide services to the public in Wales. In delivering a service to people throughout Wales, we are committed to delivering a Welsh service of equal standard to English. We will ensure that users of our services are able to receive that service through the medium of Welsh from any of our courts or tribunal offices in Wales or any office providing a shared service for England and Wales but based in England. If a Welsh-speaking member of staff is not available, arrangements will be made to contact one.

Amlygir ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog yng Nghymru yn y Cynllun hwn.

Our commitment to providing Welsh and bilingual services is manifested within this Scheme.

Mae gan bob swyddfa restr o enwau'r bobl sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwn ynghyd â'r trefniadau ar gyfer cysylltu â hwy a byddant yn cael eu diweddaru'n gyson ar ein Mewnrwyd.

Each office has access to the names and contact arrangements of persons available to provide this service and they will be constantly updated on our Intranet.

Cyfieithwyr Uned Iaith Gymraeg GLlTEM fydd yn gyfrifol am gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg neu'r Saesneg fel bo'r gofyn. Os na ellir diwallu ein anghenion cyfieithu yn fewnol yna defnyddir cyfieithwyr cymwysedig sydd yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Translations into either Welsh or English will be conducted by translators in HMCTS' own Welsh Language Unit. If we cannot meet the demand internally we will use qualified translators who are members of Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (Association of Welsh Language Translators)

# 5 Ein Darpariaeth Iaith Gymraeg

## Gohebiaeth a Chyfathrebu Ysgrifenedig

5.1. Sefydlir beth yw'r dewis iaith adeg y cyswllt cyntaf. Cofnodir y dewis hwnnw ar gyfer y dyfodol drwy sicrhau y nodir yn glir ar ffeiliau a chofnodion cyfrifiadurol mai'r iaith Gymraeg sydd i'w defnyddio.

Wrth gychwyn gohebiaeth yng Nghymru a phan nad ydym yn gwybod beth yw dewis iaith y derbynnydd, byddwn yn anfon gohebiaeth ddwyieithog.

Os byddwch yn gohebu gyda ni yn Gymraeg (trwy lythyr, e-bost neu gyfrwng cymdeithasol ayyb) byddwn yn ateb yn Gymraeg.

5.2. Os byddwn yn cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn sicrhau ei fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd, a bod yr atebwyr yn gallu ymateb yn eu dewis iaith.

5.3. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn croesawu llythyrau ac e-byst a dderbynnir yn Gymraeg, ac anfonir ateb ar gyfer unrhyw ohebiaeth o'r fath yn Gymraeg o fewn yr un terfyn amser â'r Saesneg.

5.4. Os nad oes modd anfon ateb cynhwysfawr o fewn y cyfnod hwn, anfonir cydnabyddiaeth ac esboniad yn Gymraeg, os yw hynny'n briodol. Ni ddylai'r ffaith fod rhywun yn gohebu yn Gymraeg fod yn rheswm ynddo'i hun am oedi.

# Our Welsh Language Provision

## Correspondence and written communication

5.1. The language choice will be established during the first contact and that choice will be recorded for the future by ensuring that it is clearly noted on computer files and records that the Welsh language should be used.

When initiating correspondence in Wales and when we don't know the language preference of the recipient we will send a bilingual correspondence.

If you correspond with us in Welsh (by letter, e-mail, social media etc) we will reply in Welsh.

5.2. If we initiate a public consultation we will ensure that it is available in Welsh and English at the same time and that respondents can reply in the language of their choice.

5.3. HM Courts & Tribunals Service welcome letters and email correspondence received in Welsh and any such correspondence will receive a reply in Welsh within the same time limit as applies to English.

5.4. Where it is not possible to issue a substantial reply in this time, a written acknowledgement and explanation in Welsh will be sent, if appropriate. Correspondence through the medium of Welsh should not of itself lead to a delay.

5.5. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dilyn galwad ffôn neu gyfathrebu wyneb-yn-wyneb yn Gymraeg, hefyd yn Gymraeg.

5.5. Following face to face or telephone communications in Welsh, any consequential correspondence will be in Welsh.

## Cyfathrebu dros y ffôn

5.6. Byddwn yn sicrhau y gall cyhoedd yng Nghymru siarad a ni yn Gymraeg pan fyddant yn cysylltu a ni dros y ffon.

5.7. Rydym yn darparu gwasanaeth Llinell Gymorth Cymraeg a gellir cael mynediad ato naill ai yn uniongyrchol neu drwy ddewis yr opsiwn Cymraeg wrth ffonio llys/ swyddfa tribiwnlys yn uniongyrchol. Bydd y llinell gymorth yn helpu mewn perthynas ag ymholiadau llys / tribiwnlys neu wasanaeth rheithgor yn Gymraeg. Y rhif ffôn ar gyfer cysylltu'n uniongyrchol â'r llinell gymorth yw 0800 212368.

5.8. Bydd pob aelod o staff sy'n ateb galwadau ffôn allanol uniongyrchol yn eich cyfarch yn ddwyieithog. Os yw'r aelod o staff ddim yn gallu siarad Cymraeg a bod y galwr yn dymuno siarad Cymraeg, dylid ceisio dod o hyd i siaradwr Cymraeg yn y swyddfa neu drosglwyddo'r galwr i'r llinell gymorth Cymraeg.

## Telephone communication

5.6. We will ensure the public in Wales can speak to us in Welsh when contacting us by phone.

5.7. We operate a Welsh Language Helpline which can be accessed either directly or by choosing the Welsh option when ringing a court/tribunal office direct. The helpline will assist in relation to a court/ tribunal/jury service enquiry in Welsh. The number to contact the helpline directly is 0800 212368.

5.8. All staff that answer direct external telephone calls will provide a bilingual greeting, if the member of staff does not speak Welsh and the caller wishes to speak Welsh, a Welsh speaker should be sought within their office or transfer the caller to the Welsh language helpline.

## Canolfannau Gwasanaeth Cwsmer

5.9. Wrth i ni sefydlu nifer fach o ganolfannau gwasanaeth cwsmer mawr sy'n cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn uniongyrchol i ddefnyddwyr dros y ffôn, sgwrs ar y we neu ryngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn sicrhau y byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg.

## Customer Service Centres

5.9. As we move to create a small number of large customer service centres delivering the majority of services direct to users by means of telephone support, web chat or social media interaction we will ensure that we will provide a Welsh language service.

## Cyfathrebu wyneb-yn-wyneb

5.10. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw un sy'n dymuno, neu sy'n gorfod cael cyfweliad wyneb-yn-wyneb yn gwybod eu bod yn gallu cael cyfweliad yn Gymraeg mewn unrhyw un o'n swyddfeydd yng Nghymru, a bod croeso iddynt wneud hynny. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, cewch ddewis cael y cyfweliad yn Saesneg, neu fe wneir trefniadau i chi gael y cyfweliad yn Gymraeg rywbryd eto gyda siaradwr Cymraeg yn bresennol neu gyda chyfieithydd.

5.11. Pan fydd aelod o'r staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael, byddwn yn arddangos arwyddion Cymraeg-English.

## Cyfarfodydd cyhoeddus

5.12. Os bydd achlysur lle gelwir am gyfarfodydd cyhoeddus byddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau a hysbysiadau dwyieithog. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fel gall unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu'n Gymraeg wneud hynny.

5.13. Nid yw Grwpiau Defnyddwyr y Llysoedd a Thribiwnlysoedd yn gyfarfodydd cyhoeddus, er nad oes gan rai unigolion wrthwynebiad i aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol ynddynt. Caiff pob grŵp benderfynu pa iaith neu ieithoedd mae'n dymuno'i defnyddio/eu defnyddio ac fe wneir trefniadau ymlaen llaw i weld a oes angen darparu cyfleusterau cyfieithu ai peidio.

## Face to face communication

5.10. We will ensure that any person who wishes, or is required, to have a face to face interview knows that they are able and welcome to do so in Welsh within any of our offices in Wales. If no Welsh speaker is available, you will be given the choice of conversing in English, or arrangements will be made in order that the interview will be conducted in Welsh at a later date either with a Welsh speaker present or through an interpreter.

5.11. We will display Cymraeg-English signs when a Welsh-speaking member of staff is available.

## Public meetings

5.12. If we have occasion to convene public meetings we will issue bilingual invitations and notices. We will also provide a simultaneous translation service so that anyone wishing to contribute in Welsh can do so.

5.13. Court and Tribunal User Groups are not public meetings, although some do not object to members of the public attending. Each group may decide which language or languages it wishes to use and arrangements will be made beforehand to see whether it is necessary to provide translation facilities.

## Cysylltiadau eraill gyda'r cyhoedd

5.14. Fe wnawn bob ymdrech i sicrhau y bydd unrhyw wybodaeth neu gyhoeddiad sy'n berthnasol i ymarferwyr a'r cyhoedd yng Nghymru mewn perthynas â gwaith y llys ar gael yn ddwyieithog ar Gov.uk.

5.15. Bydd unrhyw gyhoeddiadau a recordir ymlaen llaw ar gyfer y cyhoedd (gan gynnwys y rheini mewn lifftiau 'sy'n siarad') yn ein llysoedd/ swyddfeydd yng Nghymru yn ddwyieithog, os mai ni sy'n gyfrifol amdanynt. (Mae'n bosibl nad ni sy'n gyfrifol am gyhoeddiadau i'r cyhoedd mewn adeiladau a rennir gyda sefydliadau eraill.)

5.16. Byddwn yn monitro'r cydymffurfio drwy gynnal archwiliadau ar hap yn ogystal â thrwy archwilio'r cyfleusterau'n flynyddol ym mhob adeilad sydd ar agor i'r cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun ac â Siarter y Llysoedd.

## Other dealings with the public

5.14. We endeavour to ensure that any information or publication relevant to practitioners and the public in Wales in relation to the work of the courts will be available bilingually on Gov.uk.

5.15. Any pre-recorded public address announcements (including those in "speaking" lifts) for which we are responsible in our courts/offices in Wales will be bilingual. (We may not be responsible for public announcements in accommodation shared with other organisations.)

5.16. We monitor compliance by conducting spot-checks as well as an annual check on facilities in all buildings open to the public to ensure compliance with the Scheme and the Courts Charter.

## Gwasanaethau Digidol

5.17 Mae holl wefannau Adrannau'r Llywodraeth bellach yn rhan o GOV.UK. Mae gwefan GOV.UK, sy'n cael ei chynnal gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) yn casglu gwybodaeth a gwasanaethau mewn un lle gan bob adran Llywodraeth y DU, a channoedd o gyrff hyd braich.

5.18 Bydd cynnwys corfforaethol GLITEM yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ar GOV.UK.

## Digital Services

5.17. All Government Department websites have been merged into GOV.UK. The GOV.UK website, run by the Government Digital Service (GDS), collects together in a single place information and services from every UK government department, and hundreds of arm-length bodies.

5.18 HMCTS corporate content will be provided in Welsh on GOV.UK.

5.19 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth rydym yn ei ddarparu ar-lein ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth i sicrhau gwasanaeth Cymraeg cyflawn h.y. tudalen lanio Cymraeg ar Gov.uk.

Mae'r gwasanaethau digidol sydd ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd fel a ganlyn:

Cofnodi Ple Ar-lein

https://www.gov.uk/cofnodi-ple-ar-gyfer-trosedd-traffic

Talu dirwy

https://www.gov.uk/talu-dirwy-llys-ar-lein

Cymorth gyda Ffioedd

https://www.gov.uk/get-help-with-court-fees

5.19. We will ensure that any online service that we provide will be available in Welsh and we will work with Government Digital Services to ensure an end to end Welsh service i.e. a Welsh landing page on Gov.uk.

The digital services currently available in Welsh are:

Making a Plea Online

https://www.gov.uk/make-a-plea

Pay a court fine

https://www.gov.uk/pay-court-fine-online

Help with Fees

https://www.gov.uk/get-help-with-court-fees

5.20. Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw wasanaeth rhyngweithiol newydd a ddarparwn i'w ddefnyddio gan y cyhoedd ar gael yn Gymraeg.

5.20. We will ensure that any new public facing interactive service that we provide will be available in Welsh.

5.21. Pan fyddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas gyda'n gwaith yng Nghymru e.e. Facebook, Twitter, blogio ac anfon negeseuon testun, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn ddwyieithog.

5.21. We will ensure that when we use social media in relation to our work in Wales e.g. Facebook, Twitter, blogging and texting that we will do so in both language

## Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion Cyfreithiol

5.22. Mae Adran 22(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu fel hyn: "Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw Llys Ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn."

Nid yw hyn yn rhoi'r hawl i gael gwrandawiad Cymraeg, ond mewn rhai sefyllfaoedd h.y. gwrandawiadau Llys Ynadon, gall achos barhau yn Gymraeg pan fo'r holl bartïon yn ddwyieithog. O ganlyniad i hyn, ni fyddwn yn cyfieithu tystiolaeth a roddir ar lafar yn y llys o'r Saesneg i'r Gymraeg oni bai y gellir dangos bod gan barti i'r achos ddiffyg dealltwriaeth o'r Saesneg, neu y byddai ateb cwestiynau a ofynnir yn Saesneg yn gwneud y broses o roi tystiolaeth yn Gymraeg yn fwy annodd.

5.23. Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, caiff yr Arglwydd Ganghellor wneud Rheolau Llys sy'n ymwneud â defnyddio dogfennau yn Gymraeg gan fynnu bod rhaid rhoi rhybudd cyn siarad Cymraeg mewn gwrandawiadau ac eithrio mewn llysoedd ynadon lle nad oes angen rhoi rhybudd. Er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg, mae Cyfarwyddiadau Ymarfer, sydd fwy neu lai â'r un effaith â Rheolau'r Llys, wedi cael eu gwneud ar gyfer Llys y Goron a'r Llysoedd Sifil yng Nghymru, ac mae Protocol wedi'i gyhoeddi ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg yn y Llysoedd Ynadon (gellir gweld y rhain yn yr atodiadau i'r cynllun).

## Using Welsh in legal proceedings

5.22. Section 22(1) of the Welsh Language Act 1993 provides that:

"In any legal proceedings in Wales the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it, subject in the case of proceedings in a court other than a Magistrates' Court to such prior notice as may be required by rules of court; and any necessary provision for interpretation shall be made accordingly.

This does not provide the right to a Welsh hearing but in some situations e.g magistrates court hearings a case can progress in Welsh where all parties are bilingual. In view of this we will not translate evidence provided orally in court from English to Welsh unless it can be shown that a party to a case has a lack of understanding of the English language, or that answering questions posed in English would make the process of giving evidence in Welsh more difficult.

5.23. Under the Welsh Language Act 1993 the Lord Chancellor may make Rules of Court about the use of documents in Welsh and requiring notice to given before Welsh can be spoken at hearings other than magistrates' courts where notice is not required. In order to facilitate the use of Welsh, Practice Directions which have virtually the same effect as Rules of Court have been made for the Crown Court and Civil Courts in Wales and a Protocol has been published for the use of Welsh in the Magistrates Courts (these can be seen in the annexes to the Scheme).

5.24. Bydd GLlTEM yn trefnu ac yn talu am gyfieithydd mewn unrhyw wrandawiad llys neu dribiwnlys boed hynny ar gyfer yr amddiffyniad, yr erlyniad, hawlydd, atebydd neu apelydd.

5.25. Bydd copïau o gardiau tyngu llw a chadarnhau Cymraeg ar gael yn hwylus; a bydd Beiblau Cymraeg a Saesneg ar gael ym mhob llys a thribiwnlys. Os dymuna unigolyn dyngu llw yn Gymraeg, ni fydd unrhyw ofyniad i ailadrodd yr un llw yn Saesneg.

5.26. Bydd y gwasanaeth cyfieithu mewn gwrandawiadau llys / tribiwnlys yn wasanaeth ar y pryd (yn y fan a'r lle) a bydd Uned Iaith Gymraeg GLlTEM yn trefnu cyfieithydd cymwys neu brofiadol addas.

## Achosion llys

### Achosion Sifil

5.27. Ar gyfer achosion sifil, gallwch gychwyn achos llys yn Gymraeg neu yn Saesneg yng Nghymru, hyd yn oed os yw'r hawliad yn cael ei gychwyn gan un pwynt mynediad h.y. Un Llys Teulu neu Un Llys Sifil ar gyfer Cymru a Lloegr, neu fod hawliad yn cael ei weinyddu neu ei gychwyn gan ganolfan brosesu yn Lloegr. Byddwn yn cyfieithu i'r Gymraeg neu i'r Saesneg ddogfennau cychwynnol, gorchmynion llys a dogfennau a baratowyd yn benodol ar gyfer yr achos ac sydd i'w defnyddio mewn gwrandawiadau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau achosion a drosglwyddir i lys yn Lloegr lle mae'r Barnwr wedi caniatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio. Byddwn ni'n gyfrifol am unrhyw gostau cyfieithu.

5.24. HMCTS will book and pay for a Welsh interpreter in any court or tribunal hearing be that for the defence, prosecution, claimant, respondent or appellant.

5.25. Copies of Welsh language oath and affirmation cards will be readily available; and Welsh and English language Bibles will available in all courts and tribunals. If a person wishes to take the oath in Welsh there will be no requirement to repeat the same oath in English.

5.26. Interpretation in court/tribunal hearings will be simultaneous (real time) and HMCTS' Welsh Language Unit will book a suitably experienced or qualified Welsh interpreter.

## Court proceedings

### Civil Cases

5.27. For civil cases you may issue court proceedings in Welsh or English in Wales even if the claim is issued by a single point of entry i.e. Single Family Court or Single Civil Court for England and Wales, or a claim is administered or commenced by a processing centre based in England. We will translate into either Welsh or English initial court documents, court orders and court documents specifically prepared for the proceedings and to be used at hearings. This also applies to documents in cases transferred to a court in England where the judge has allowed Welsh to be used. We will be responsible for any translation costs.

5.28. Yn y Llys Sirol, mae'r Holiadur Cyfarwyddiadau dwyieithog (N180) yn cynnwys cwestiynau y mae'n rhaid eu hateb ynglŷn â'r dewis iaith. Oni ddarperir yr wybodaeth hon i'r llys yn awtomatig, drwy gyfrwng yr holiaduron, byddai angen rhybudd rhesymol ymlaen llaw, 5 diwrnod gwaith yn ddelfrydol, fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cyfieithydd Cymraeg.

5.29. Byddwn yn cynnwys hysbysiad sy'n rhoi manylion am ein gwasanaethau Cymraeg gyda'r ddogfennaeth. Bydd yr hysbysiad yn esbonio y caiff rhywun siarad Cymraeg neu Saesneg yn yr achos ac yn eich gwahodd i roi gwybod i ni ymlaen llaw pa iaith y dymunwch ei defnyddio. Unwaith i chi roi gwybod i'r llys beth yw eich dewis iaith, byddwn yn parchu'r dewis hwnnw wrth anfon ffurflenni a gohebiaeth i chi ar ôl hynny.

## Gwrandawiadau Llysoedd Ynadon a Llys y Goron.

5.30. Yn y Llysoedd Ynadon, y drefn arferol o ran gwysion ynghyd â dogfennau atodol yw y cânt eu cyhoeddi yn ddwyieithog oni wyddys beth yw dewis iaith yr unigolyn. Ar gyfer achosion y gellir delio â hwy dan y Weithdrefn Un Ynad, mae cyfleuster ar gael ar-lein sy'n galluogi diffynnydd i gyflwyno ei ble ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gall sawl asiantaeth (cyhoeddus a phreifat) erlyn achos trwy'r Weithdrefn Un Ynad. Bydd GLlTEM yn disgwyl i'r asiantaethau/cyrff hynny sy'n gweithredu cynlluniau iaith neu safonau i ddarparu'r hysbysiadau hyn yn ddwyieithog yn unol â'r gofynion hynny. O ran yr erlynwyr

5.28. In the county court the bilingual Directions Questionnaire (N180) contains questions as to language preference which must be answered. If this information is not automatically provided to the court, by means of the questionnaires, reasonable advance notice, ideally five working days, would be required so that the necessary arrangements for a Welsh interpreter can be made.

5.29. With the documentation we will include a notice giving details of our Welsh Language services. The notice will explain that Welsh or English may be spoken in the proceedings and invite you to let us know beforehand which language you wish to use. Once you notify the court of your preferred language, we will honour your choice when sending subsequent forms and correspondence.

## Magistrates courts and Crown Court hearings

5.30. In the Magistrates Courts the default position in relation to summonses and any supporting documentations is that they are issued bilingually if language choice is not known. For cases that can be dealt with under the Single Justice Procedure there exists an online facility that enables a defendant to make their plea online through the medium of Welsh.

Multiple agencies (public and private) can prosecute a case through the Single Justice Procedure. HMCTS will expect those agencies/organisations who implement a language scheme or standards to provide these notices bilingually in accordance with those

preifat disgwylir iddynt hwy sefydlu dewis iaith y diffynnydd ac os mai Cymraeg trefnu i anfon hysbysiad Cymraeg.

5.31. Fel y gwelwn orau, byddwn yn cyfieithu i'r Gymraeg neu i'r Saesneg gorchmynion llys a dogfennau llys a baratowyd yn benodol ar gyfer yr achos ac sydd i'w defnyddio mewn gwrandawiadau. Er hynny byddwn bob amser yn cyfieithu dogfennau pan fydd y cais gan unigolyn a byddwn yn cwrdd â'r gost.

5.32. Ar wahân i warantau a gyflwynir gan yr Heddlu, sydd ar gael yn Gymraeg, bydd unrhyw warant arall sy'n cael ei chyflwyno gan erlynydd preifat yn cael ei darparu yn Gymraeg gan WLlTEM ar gais gan yr awdurdod erlyn, a'u cyfrifoldeb nhw yw canfod dewis iaith y derbynnydd.

5.33. Ar gyfer gwrandawiadau a gynhelir am y tro cyntaf (ac eithrio gwysion) dylid hysbysu'r llys o ddewis iaith y diffynnydd drwy awdurdodau'r heddlu.

5.34. Ar gyfer treialon yn y Llys Ynadon, cadarnheir dewis iaith y diffynnydd a'r tystion yn y gwrandawiad cyn-treial.

5.35. Yn Llys y Goron, bydd y broses pledio a rheoli achos yn cynnwys cwestiynau y mae'n rhaid eu hateb ynglŷn â'r dewis iaith. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu'n awtomatig i'r llys yn ystod y gwrandawiad. Gall y llys wneud cyfarwyddyd bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu erbyn dyddiad penodol.

requirements. In relation to private prosecutors, it is expected that they establish the defendant's language of choice and if Welsh subsequently issue a Welsh notice.

5.31. At our discretion, we will translate into either Welsh or English court orders and court documents specifically prepared for the proceedings and to be used at hearings. However we will always translate documents when the request is from an individual and will bear the cost.

5.32. Other than Police issued warrants which are available in Welsh, any other warrant issued by a private prosecutor will be provided in Welsh by HMCTS on request by the prosecuting authority, whose duty it is to ascertain the recipient's language preference.

5.33. For first time up hearings (other than summonses) the defendant's language choice should be made known to the court via the police authorities.

5.34. For trials in the magistrates' courts the defendant and witnesses' language choice is clarified at the pre-trial hearing.

5.35. In the Crown Court the plea and case management process will include questions as to language preference which must be answered. If this information is not automatically provided to the court at the hearing the court can make a direction that such information be provided by a certain date.

## Llys Gweinyddol

5.36. Mae'r Llys Gweinyddol yn lys arbenigol sy'n dod o dan Adain Mainc y Frenhines o'r Uchel Lys ac mae iddo ganolfan yng Nghaerdydd. Gallwch wneud cais yn y Llys Gweinyddol yn y Gymraeg trwy ddefnyddio'r ffurflen ddwyieithog N461 a gellir defnyddio'r Gymraeg yng ngweithrediadau'r llys, lle bydd y llys yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

5.37. Bydd y llys hefyd yn cyfieithu dogfennau a ddefnyddir yn y gwrandawiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg fel bo'r angen.

## Achosion a drosglwyddir i llysoedd y tu allan i Gymru

5.38. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru. Nid yw'n rhoi'r hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad y tu allan i Gymru. Mater i'r barnwr yw penderfynu a ddylid caniatáu i rywun siarad Cymraeg mewn llys/tribiwnlys y tu allan i Gymru ond os caniateir hynny, byddwn yn trefnu bod cyfleusterau cyfieithu ar gael yn hwylus ac yn rhwydd fel y byddwn yn ei wneud mewn llysoedd yng Nghymru.

5.39. Os yw achos wedi cychwyn mewn llys yng Nghymru ac wedi'i drosglwyddo i lys yn Lloegr, a bod y barnwr wedi rhoi caniatâd i ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn yn trefnu i hwyluso hynny.

## Administrative Court

5.36. The Administrative court is a specialist court within the Queen's Bench Division of the High Court of Justice which has a centre in Cardiff. You can issue a claim in the Administrative Court in Welsh by using the bilingual N461 form and Welsh can be used within the proceedings for which the court will make the necessary arrangements.

5.37. The court will also translate any documents used in the hearing to either Welsh or English as required.

## Cases transferred to courts outside of Wales

5.38. The Welsh Language Act 1993 grants the right to use the Welsh language in courts in Wales, it does not grant the right to speak Welsh at a hearing outside Wales. The decision whether or not to allow Welsh to be spoken at a court/tribunal outside of Wales is for the judge but where it is allowed we will arrange translation facilities as readily and freely as we do at courts in Wales.

5.39. Where proceedings were commenced at a court in Wales and transferred to a court in England, and the judge has given permission for Welsh to be used, we will make arrangements to facilitate the use of the Welsh language.

## Gwrandawiadau Tribiwnlys, Profiant a'r Llys Gwarchod

5.40. Mae gennych yr hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad yn y Llys Gwarchod, gwrandawiadau Profiant a gwrandawiadau Tribiwnlys yng Nghymru. Os cawn wybod eich bod chi neu rywun sy'n barti yn yr achos yn dymuno siarad Cymraeg mewn gwrandawiad, byddwn yn eich galluogi i wneud hynny.

5.41. Mewn achosion y Llys Gwarchod, gellir gwneud ceisiadau yn Gymraeg ar y ffurflenni perthnasol a bydd y llys yn cofnodi dewis iaith yn unol â hynny naill ai yn electronig neu ar ffeil yr achos.

5.42. Mewn gwrandawiadau y Tribiwnlys Cyflogaeth, gallwch gychwyn eich hawliad/apêl yn Gymraeg a siarad Cymraeg yn y gwrandawiad.

5.43. Mewn apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, rydym yn dibynnu ar yr asiantaeth haen gyntaf h.y. Yr Adran Gwaith a Phensiynau i roi gwybod inni am ddewis iaith. Os ydych yn dymuno siarad Cymraeg yn eich gwrandawiad, yna bydd y llys os yn bosibl yn trefnu panel Cymraeg neu'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd

5.43. Bydd canlyniadau gwrandawiadau tribiwnlys (ac eithrio gorchmynion a hysbysiadau) ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd yn Gymraeg ar gais

## Tribunal , Probate and Court of Protection Hearings

5.40. You have the right to speak Welsh at Court of Protection, Probate and Tribunal hearings in Wales. When we are told that you or any party to the proceeding wishes to speak Welsh at a hearing we will enable you to do so.

5.41. In Court of Protection cases applications can be made in Welsh on the relevant forms and the court will record language preference accordingly either electronically or on the case file.

5.42. In Employment Tribunal hearings you can initiate your claim/appeal in Welsh and speak Welsh at the hearing.

5.43. In Social Security and Child Support appeals we depend on the first tier agency i.e Department for Work and Pensions to inform us of language preference. If you wish to speak Welsh at your hearing then the court if possible will arrange a Welsh speaking panel or provide the services of a simultaneous interpreter.

5.44. Public notification of the outcome of tribunal hearings (not orders or notices) on the internet will be made available in Welsh if requested.

## Achosion a drosglwyddir i Lysoedd y tu allan i Gwasanaeth Rheithgorru

5.45. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru. Nid yw'n rhoi'r hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad y tu allan i Gymru. Mater i'r barnwr/ynad/cynghorydd cyfreithiol yw penderfynu a ddylid caniatáu i rywun siarad Cymraeg mewn llys/tribiwnlys y tu allan i Gymru, ond os caniateir hynny, byddwn yn trefnu bod cyfleusterau cyfieithu ar gael yn hwylus ac yn rhwydd fel y byddwn yn ei wneud mewn llysoedd yng Nghymru.

5.46. Os yw achos wedi cychwyn mewn llys yng Nghymru ac wedi'i drosglwyddo i lys yn Lloegr, a bod y barnwr wedi rhoi caniatâd i ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn yn trefnu i hwyluso hynny ond bydd angen rhybudd o flaen llaw. Byddwn ni'n gyfrifol am unrhyw gostau cyfieithu.

## Gwasanaeth Rheithgor

5.47. Os cewch eich gwysio i wasanaethu ar reithgor yn Llys y Goron yng Nghymru, byddwch yn cael dogfennau dwyieithog. Pan fyddwch yn ateb, cewch ddewis nodi eich dewis iaith; Cymraeg ynteu Saesneg. Os byddwch yn dweud wrth ateb y byddech yn hoffi i ni ymwneud â chi yn Gymraeg, byddwn yn gohebu â chi yn Gymraeg yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth rheithgor yn y llyfryn: "Eich canllaw i Wasanaeth Rheithgor." Pan fyddwch yn dod i'r llys, fe'ch gwahoddir i wylio DVD sydd ar gael yn Gymraeg sy'n esbonio cyfrifoldebau'r gwasanaeth rheithgor. Os gelwir arnoch dyngu llw rheithiwr, bydd croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

## Cases transferred to courts outside of Wales

5.45. The Welsh Language Act 1993 grants the right to use the Welsh language in courts in Wales, it does not grant the right to speak Welsh at a hearing outside Wales. The decision whether or not to allow Welsh to be spoken at a court/ tribunal outside of Wales is for the judge/ magistrate/legal adviser to decide but where it is allowed we will arrange translation facilities as readily and freely as we do at courts in Wales.

5.46. Where proceedings were commenced at a court in Wales and transferred to a court in England, and the judge has given permission for Welsh to be used, we will make arrangements to facilitate the use of the Welsh language subject to prior notice being given. We will be responsible for any translation costs.

## Jury Service

5.47. If you are summoned to serve on a jury at any Crown Court in Wales, we will do so bilingually. When you reply you will be given the choice of stating your preferred language; Welsh or English. If you respond saying that you would like to be dealt with in Welsh, future correspondence will be in Welsh. Further information about jury service is contained in the booklet: "Your guide to Jury Service." When you attend the court you are invited to watch a DVD which is available in Welsh and which explains the responsibilities of jury service. If you are called to take the juror's oath you are welcome to use either Welsh or English.

5.48. Mae rheithwyr yn cael eu dewis ar hap oddi ar y rhestr etholiadol leol. Os cewch eich galw i fod yn rheithiwr, ni fydd darpariaeth ar gyfer cyfieithu tystiolaeth Saesneg i'r Gymraeg. Bydd tystiolaeth a roddir yn Gymraeg yn cael ei chyfieithu i'r Saesneg ar gyfer aelodau'r rheithgor nad ydynt yn deall Cymraeg.

Ni fydd darpariaeth yn ystafell drafod y rheithgor ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg oherwydd yr angen am gyfrinachedd yn unol a darpariaethau Deddf Rheithwyr 1974, sy'n nodi mai dim ond aelodau o'r rheithgor sy'n cael bod yn bresennol yn yr ystafell ymneilltuo.

5.48. Jurors are selected at random from the local electoral list. If you are called to act as a juror there will be no provision to interpret English evidence into Welsh. Evidence given in Welsh will be translated for jury members who do not understand Welsh.

There are no provisions to allow interpretation from Welsh to English within the jury deliberation room due to the need for confidentiality, in accordance with the provisions stated in the Jurors Act 1974, which states that only members of the jury are allowed in the retiring room

# 6 Ein darpariaethau ar gyfer yr Ynadaeth

Mae'r Ynadaeth yn rhanddeiliad allweddol ac amlwg. Pan fyddwn yn rhyngweithio â'r Ynadaeth, byddwn:

6.1. Yn sicrhau bod pob gohebiaeth/ canllaw a gyflwynir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ganolog i Ynadon naill ai'n ddwyieithog neu fod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gael ar yr un pryd.

6.2. Yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chadeirydd y Fainc, byddwn yn darparu agendâu a chofnodion cyfarfodydd y fainc yn ddwyieithog.

6.3. Yn parchu dewisiadau ieithyddol yr ynadon hynny sydd wedi nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg os yw'n rhesymol ac yn ymarferol.

6.4. Yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cyfreithiol /Cadeirydd y Fainc, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Rheoli Mainc.

6.5. Yn sicrhau bod unrhyw ohebiaeth (electronig neu fel arall) gan y Cyfarwyddwr Cyflawni neu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cyfreithiol (neu eu cynrychiolwyr) yng Nghymru i'r Fainc gyfan yn ddwyieithog (oni bai bod cytundeb blaenorol gyda Chadeirydd y Fainc nad oes angen hyn); a

6.6. Trwy drafodaeth â Chadeiryddion priodol y Pwyllgorau Ymgynghorol yn hwyluso dewis yr ymgeisydd i'r Ynadaeth i gael ei g/chyfweld yn y Gymraeg.

# Our provisions for the Magistracy

The magistracy is a key and distinct stakeholder. In our interaction with the magistracy we will:

6.1. Ensure that all correspondence/guidance initiated by HM Courts & Tribunals Service centrally to magistrates is either bilingual or separate Welsh and English versions will be made available at the same time.

6.2. At the discretion of the Director of Legal Operations and bench chair, provide bench meeting agendas and minutes bilingually.

6.3. If reasonable and practical respect the linguistic choices of those magistrates who have indicated that they would like to use the Welsh language.

6.4. At the discretion of the Director of Legal Operations/Bench Chair facilitate the use of Welsh in Bench Management meetings by providing simultaneous interpretation.

6.5. Ensure that any correspondence (electronic or otherwise) from the Delivery Director or Director of Legal Operations (or their representatives) in Wales to the full bench is bilingual (unless by prior agreement with the bench chair that this is not required); and

6.6. In consultation with the respective Chairsof the Advisory Committees, facilitate an applicant for the magistracy to be interviewed in Welsh at their choice
.

6.7. Dylai bod y deunyddiau sydd wedi'u hysgrifennu ar gyfer yr ynadaeth ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, a bod y dogfennau hynny yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â hawliadau a threuliau ynadon

Dylai'r rhain gynnwys fersiynau digidol / ar-lein yn ogystal â chopïau caled.

6.8. Petai o gymorth i'r ynadon, a thrwy ddisgresiwn y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o ddogfennau a baratowyd gan asiantaethau eraill.

6.7. Provide material targeted to the magistracy at large in Welsh or bilingually at the same time as the English version. Such documents to include those that relates to magistrates claims and expenses.

These to include digital/online versions as well as hard copies.

6.8. If it would be of assistance to the Magistrates, and at the discretion of the Director of Legal Services, we will provide Welsh versions of documents that were prepared by other agencies notices.

# 7 Delwedd Gyhoeddus y Sefydliad

## Hunaniaeth gorfforaethol

### Deunydd Swyddfa

7.1. Mae pob un o'n swyddfeydd yng Nghymru yn defnyddio papur swyddfa ddwyieithog sy'n dangos enw a chyfeiriad y swyddfa sy'n ei anfon, ac unrhyw wybodaeth safonol arall.

### Bathodynnau Enw / Cardiau Adnabod

7.2. Mae staff swyddfeydd cyhoeddus yn gwisgo bathodynnau adnabod sy'n dangos ein logo dwyieithog. Os yw teitl swydd yn cael ei gynnwys hefyd, bydd yn Gymraeg a Saesneg. Mae gan Swyddogion Gorfodi Sifil a beilïaid y Llys Sirol gardiau adnabod dwyieithog.

### Arwyddion

7.3. Mae'r arwyddion cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn ac o gwmpas ein swyddfeydd yng Nghymru'n ddwyieithog. Os darperir arwyddion gan Drydydd Parti h.y. gan gontractwr sy'n gweithio ar safle yng Nghymru, yna bydd yn rhaid iddynt ddarparu arwyddion dwyieithog dan ddarpariaeth y Cynllun hwn.

### Cyhoeddiadau a Ffurflenni

7.4. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi (yn ddigidol neu mewn print) ar ffurf ddwyieithog lle bo hynny'n rhesymol ymarferol; fel arall bydd dogfennau ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar yr un pryd. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfleu bod fersiynau dwyieithog neu Gymraeg ar gael.

# The Organisation's Public Image

## Corporate identity

### Stationery

7.1. All our offices in Wales use bilingual stationery, which display the name and address of the office of issue and any other standard information.

### Name badges/identity cards

7.2. All staff in public offices wear identity badges which display our bilingual logo. If a job title is also included this will be expressed in both Welsh and English. Civilian Enforcement Officers and County Court bailiffs carry bilingual identification cards.

### Signs

7.3. Public signs for which we are responsible in and around our offices in Wales are bilingual. If signage is provided by a Third Party i.e. a contractor working on site in Wales then they will be required to provide bilingual signage under the provisions of this Scheme.

### Publications and forms

7.4. We are committed to ensuring that all materials directed at the public in Wales will be published (digitally or in print) in a bilingual form where reasonably practicable; otherwise documents will be available in separate Welsh and English versions at the same time. We will ensure that we convey that bilingual or Welsh versions are available.

Os byddwn yn codi tâl ar y cyhoedd am unrhyw gyhoeddiad, byddwn yn sicrhau na fydd fersiwn dwyieithog yn ddrytach na fersiwn uniaith Saesneg.

If we charge the public for any publication we will ensure that a bilingual version will not be more expensive than an English only version.

## Hysbysebu yng Nghymru

## Advertising in Wales

7.5. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn trin y ddwy iaith yn gyfartal. Byddwn yn defnyddio hysbysebion dwyieithog i ymddangos mewn cyhoeddiadau Saesneg yn unig yng Nghymru. Yn Gymraeg yn unig y bydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

7.5. HM Courts & Tribunals Service deals with both languages on a basis of equality. We will use bilingual advertisements to appear in English language publications in Wales. Advertisements placed in Welsh language publications will be in Welsh only.7.6. We encourage our courts to display bilingual notices in those areas of the courts/tribunal offices not accessible to the public.

## Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Recriwtio Staff

## Official notices, public notices and staff recruitment advertising

7.6. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyhoeddi hysbysiadau dwyieithog i'r wasg am unrhyw fater sy'n ymwneud â'n gwasanaethau yng Nghymru, ac mewn unrhyw gyhoeddiadau o bwys am y gwasanaeth sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Byddwn yn targedu deunydd yn ofalus i'r cyfryngau Cymraeg ac fe allwn drefnu i staff Cymraeg eu hiaith wneud cyfweliadau gyda'r cyfryngau a'r wasg i gynorthwyo yn y gwaith o roi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau yn y gwasanaeth.

7.6. HM Courts & Tribunals Service will issue bilingual press notices on any matter relating to our services in Wales, and any major service announcements that apply across Wales and England. We will carefully target material at the Welsh language media and can arrange for Welsh speaking staff to do broadcast or print interviews to assist in publicising service developments.

Bydd pob hysbysiad cyhoeddus a swyddogol yn ymddangos gyda'r fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg yn cael eu harddangos gyda'i gilydd yng Nghymru, megis hysbysiadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Rhaid i'r rhain fod yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder

All public and official notices will appear with the Welsh and English versions shown together wherever displayed in Wales, such as notices of public meetings. They shall be equal in terms of format, size, quality, legibility and prominence. This will also apply to staff recruitment

ac amlygrwydd. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i hysbysiadau recriwtio staff. Yn Gymraeg yn unig y bydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Caiff pob hysbysiad i'r wasg ei roi ar ein gwefan perthnasol i gyrraedd cynulleidfa ehangach o siaradwyr Cymraeg. Bydd unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a ddefnyddir mewn arddangosfeydd a ffeiriau swyddi yng Nghymru'n ddwyieithog.

notices. Advertisements placed in Welsh language publications will be in Welsh only. All press notices will be placed on the relevant website to reach a wider audience of Welsh speakers. Any publicity materials used at exhibitions and job fairs in Wales will be bilingual.

# 8 Ein darpariaeth ar gyfer Staff

8.1. Bydd pob gohebiaeth gan Gyfarwyddwr Cyflawni Cymru at yr holl staff yn ddwyieithog, ac yn yr un modd gan unrhyw uwch swyddog arall sy'n gohebu â nifer sylweddol o staff yng Nghymru.

8.2. Yng Nghymru rydym yn darparu'r dogfennau mewnol canlynol yn ddwyieithog, neu fel dogfennau ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Pob cyfathrebiad at yr holl staff gan y Cyfarwyddwr Cyflawni neu unrhyw aelod o Dîm Rheoli Cymru gan gynnwys cylchlythyrau a gynhyrchir yng Nghymru.
- Os yn rhesymol ac ymarferol byddwn yn darparu ffurflenni mewnol mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Os cynhelir cynhadledd i staff yng Nghymru bydd y dogfennau a'r cyflwyniadau yn ddwyieithog

8.3. Byddwn yn cynyddu amlygrwydd y Gymraeg yn ein sefydliad drwy sicrhau bod y staff yn defnyddio cyfarchion allan-o'r-swyddfa a llofnodion dwyieithog.

8.4. Rydym yn annog ein llysoedd i arddangos hysbysiadau dwyieithog yn yr ardaloedd hynny yn y llysoedd/swyddfeydd tribiwnlys nad ydynt yn agored i'r cyhoedd.

8.5. Os yw'n rhesymol ac ymarferol, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn Gymraeg mewn rhai cyfarfodydd gyda staff e.e. cyfarfodydd rheoli perfformiad a chyfarfodydd absenoldeb salwch.

# Our provision for staff

8.1. All correspondence directed from the Delivery Director for Wales to all staff will be bilingual and likewise by any other senior officer corresponding with a significant staff audience in Wales.

8.2. In Wales we provide the following internal documents bilingually or as separate documents in Welsh and English.

- All communications directed to all staff by the Delivery Director or any member of the Wales Management Team including Wales generated newsletters.
- If reasonable and practical we will provide internal forms in relation to HR matters in Welsh or bilingually.
- If we hold a conference for staff in Wales we will provide the documents and presentations bilingually

8.3. We will increase the visibility of the Welsh language within our organisation by ensuring staff use bilingual out of office greetings and signatures.

8.4. We encourage our courts to display bilingual notices in those areas of the courts/tribunal offices not accessible to the public.

8.5. If reasonable and practical we will provide a Welsh language simultaneous interpretation service in certain meetings with staff e.g. performance management meetings, sick absence meetings.

8.6. Byddwn yn parhau i gefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu'r rhai sydd eisiau gwella ansawdd eu Cymraeg.

8.7 Mae'n bosibl y byddwn yn hysbysebu rhai swyddi yng Nghymru gyda'r gofyniad i ddysgu Cymraeg. Os felly, byddwn yn talu'r gost o ddysgu ac yn caniatáu amser rhesymol o fewn diwrnod gwaith ar gyfer gwersi.

8.6. We will continue to support staff that wish to learn the Welsh language or those who want to improve their Welsh.

8.7 We might advertise some posts in Wales that has a requirement within it to learn Welsh. If that is the case we will pay the cost of tuition and will allow reasonable time within the working day for lessons.

# 9 Gweithredu a monitro'r Cynllun

9.1. Fel cyflogwr cyfle cyfartal, ein polisi yw recriwtio'r ymgeiswyr mwyaf priodol ar gyfer swyddi gwag a'u hyfforddi ar gyfer y sgiliau penodol sydd eu hangen arnynt i weithio'n effeithiol.

Rydym yn derbyn y bydd angen sgiliau dwyieithog ar gyfer rhai swyddi e.e. tywyswyr llys, beilïaid y llys, cynghorwyr cyfreithiol, er mwyn i ni ddarparu gwasanaeth boddhaol yng Nghymru ac i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Cynhaliwyd arolwg o sgiliau dwyieithog staff presennol ar lefel y llys, a bydd yr wybodaeth hon yn llywio ein hymdrechion recriwtio yn y dyfodol. Cyflwynwyd Canllawiau Recriwtio i Reolwyr Recriwtio i dynnu sylw at yr angen i gynnwys sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swydd newydd neu wrth lenwi swydd sydd eisoes yn bodoli.

Yng Nghymru rydym wedi ymrwymo gynyddu nifer y staff dwyieithog a gaiff eu recriwtio ac i annog ein staff presennol i ddysgu'r iaith.

# Implementing and monitoring the Scheme

9.1. As an equal opportunities employer our policy is to recruit the most suitable candidatesto vacancies and then train them for the particular skills needed to perform effectively.

We recognise that for certain posts e.g. court ushers, court bailiffs, legal advisers; bilingual skills will be needed in order for us to provide a satisfactory service in Wales and to comply with this Scheme. An audit of the bilingual skills of existing staff has been conducted at court level and this information will inform our future recruiting efforts. Recruiting Guidelines have been issued to Recruiting Managers to highlight the need to factor Welsh language skills when advertising a new post or back filling an existing post.

In Wales we are committed to trying to increase the recruited number of bilingual staff and to encourage our current staff members to learn the language.

# 10 Staff

10.1. Bydd pob aelod newydd o staff sy'n gweithio yng Nghymru yn gorfod cyflawni cwrs e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn ogystal â chael gwybodaeth am ein Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'u hyfforddant gynefino ynghyd a chwrs i gyfarch yn Gymraeg.

Byddwn yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar ddarpariaethau'r Cynllun Iaith i wneuthurwyr polisi a swyddogion sy'n gweithio y tu allan i Gymru.

## Recriwtio

10.2. Adran Gwasanaethau a Rennir y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am ein hymgyrchoedd recriwtio. Maent bellach yn rhan o System World Careers Network ac o ganlyniad, nid oes gennym unrhyw reolaeth dros y system meddalwedd maent yn ei ddefnyddio i hwyluso ceisiadau ar-lein. Ar gyfer swyddi rydym yn eu hysbysebu yng Nghymru, rydym wedi sefydlu proses busnes sy'n galluogi ymgeisydd i wneud cais yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd rhai swyddi yng Nghymru yn cael eu hysbysebu gyda'r Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Bydd rheolwyr lleol yn gwneud penderfyniad pa un ai a ddylid hysbysebu swydd fel bod y Gymraeg yn hanfodol yn seiliedig ar broffil ieithyddol y llysoedd/swyddfeydd y mae'r ardal honno yn ei gwasanaethu.

# Staffing

10.1. All new staff working in Wales will have Welsh language awareness and information on our Welsh Language Scheme as part of their induction together with a course on being able to meet and greet in Welsh.

We will be conducting awareness sessions on the provisions of the Language Scheme for policy makers and officers who work outside of Wales.

## Recruitment

10.2. Our recruitment is undertaken by the Ministry of Justice's Shared Services Department and is now part of the World Careers Network System and therefore we have no direct control over the software system that they use to facilitate online applications. For posts that we advertise in Wales we have developed a business process that allows an applicant to apply in Welsh if they wish. Some posts within Wales will be advertised with a Welsh essential or desirable designation. The decision as to whether a post is Welsh essential is made by local managers based on ensuring the court/ office's linguistic profile matches that of the area it serves.

## Hyfforddiant Galwedigaethol

10.3. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn asesu'r angen am hyfforddiant penodol ym maes sgiliau cyfathrebu a phrosesu geiriau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu ar gyfer pa hyfforddiant bynnag sy'n cael ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn cwrdd â'n gofynion.

10.4. Rydym yn annog ein staff yng Nghymru i ddysgu'r Gymraeg neu i wella'u sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Byddwn yn parhau i adolygu sut gallwn ddatblygu ein staff mewn perthynas â hyn.

10.5. Byddwn hefyd, pan fo hynny'n ymarferol, yn ystyried rhai cyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. cam-drin domestig a chyrsiau sy'n ymwneud ag amrywiaeth.

## Vocational training

10.3. HM Courts & Tribunals Service do assess the need for specific training in communication and word processing skills through the medium of Welsh and make provision for such training as is considered necessary to meet our requirements.

10.4. We encourage our staff in Wales to learn Welsh or improve their Welsh language skills. We will continue to review how we best develop our staff in this respect.

10.5. We also, when practical will consider providing certain vocational courses through the medium of Welsh e.g. domestic abuse and courses relating to diversity.

# 11 Trefniadau Gweinyddol

## Awdurdod

11.1. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cefnogi'r Cynllun hwn yn llwyr, yn ei awdurdodi a'i gymeradwyo a bydd yn rhoi awdurdod llwyr i'r Cynllun yn ystod cyfnod ei weithredu.

## Hysbysu Staff

11.2. Mae'r holl staff yng Nghymru yn ymwybodol o holl agweddau ein gwasanaeth Cymraeg h.y. mewn cyfarfodydd bwrdd gwybodaeth y tîm neu drwy ganllawiau penodol. Bydd pob aelod newydd o'r staff yn cael ei hysbysu ar bwysigrwydd gweithio'n ddwyieithog fel rhan o'u hyfforddiant cynefino.

11.3. Mae ein Pencampwyr Iaith Gymraeg hefyd yn gyfrifol am hysbysu ein staff presennol a'n staff newydd am eu cyfrifoldeb hwy dan y Cynllun.

## Trefniadau gyda Thrydydd Parti

11.4. Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir gyda thrydydd parti ac sydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r contractwr ddarparu gwasanaethau'n Gymraeg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfeirio at ein Cynllun Iaith Gymraeg yn y gwahoddiadau i dendro.

11.5. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithredu rhai o'i ddyletswyddau cyhoeddus trwy gytundeb â thrydydd parti. Mae'n bwysig fod y trydydd parti hyn yn gweithredu yn unol â disgwyliadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a nodir oddi fewn

# Administrative arrangements

## Authority

11.1. HM Courts & Tribunals Service fully supports, authorises and approves this Scheme and give full authority to the Scheme during its implementation.

## Informing staff

11.2. All staff in Wales have been made aware of all aspects of our Welsh service e.g. at team information board meetings or through specific guidelines. All new staff will be briefed on the importance of working bilingually as part of their induction training.

11.3. Our Welsh Language Champions also have a responsibility for informing our new and existing staff of their responsibility under the Scheme.

## Arrangements with third parties

11.4. Any agreement or arrangement concerned with the provision of services for the public in Wales on behalf of HM Courts & Tribunals Service entered into with a third party will conform to the terms of this Scheme in that the contractor will have to provide services in Welsh or bilingually. Reference to our Welsh Language Scheme will be made within the invitations to tender.

11.5. HM Courts & Tribunals Service delivers some of its public responsibilities through contract with third parties. It is important that these third parties operate in line with HM Courts & Tribunals Service expectations according to each contract drawn up. Contractors are expected to

i bob cytundeb. Disgwylir i gontractwyr sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion arbennig unrhyw gytundeb neu gontract ac adrodd yn ôl yn ôl y gofyn.

11.6. Mae'r Cynllun hwn yr un mor berthnasol i unrhyw drydydd parti sy'n darparu gwasanaeth ar ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ag ydyw i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ei hun. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn annog contractwyr sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ei ran i ymdrin â'r ddwy iaith yn gyfartal.

11.7. Wrth osod unrhyw gontract bydd y Swyddog perthnasol yn ystyried a chytuno'r gofynion ieithyddol gyda'r darparwr gwasanaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Cynllun hwn.

11.8. Gwneir hyn drwy gynnwys manylion perthnasol am y gofynion ieithyddol sydd ynghlwm â'r cytundeb yn y ddogfennaeth tendr neu gytundeb a roddir i'r contractwyr.

Pan ddaw'n adeg diwygio contract presennol, caiff cyfres benodol o ganllawiau sy'n berthnasol i'r contract hwnnw eu darparu. Bydd y rheini'n nodi'n glir y gofyniad ieithyddol e.e. bydd contract arlwyo yn nodi gofyniad am fwydlenni dwyieithog, a bydd contract ar gyfer staff diogelwch yn pwysleisio gofyniad i allu cyfarfod a chyfarch yn Gymraeg ac yn Saesneg

11.9. Mae'n rhaid i bob uned fusnes sy'n defnyddio asiantau neu gontractwyr i gyflwyno gwasanaethau ar ein rhan ni yng Nghymru, fonitro ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar eu cydymffurfiaeth gyda'r cynllun hwn.

ensure compliance with the requirements of each contract or agreement and report back as required.

11.6. This Scheme is just as relevant to any third party providing a service on behalf of HM Courts & Tribunals Service as it is to HM Courts & Tribunals Service itself. HM Courts & Tribunals Service encourages contractors which provide services for the public in Wales on its behalf to treat both languages on the basis of equality.

11.7. When agreeing any contract the relevant officer will ensure that the language requirements are considered and agreed with the service provider to ensure compliance with this Scheme.

11.8. This will be done by ensuring that all contractual language requirements are defined in the service agreement or contractual documents provided to the contractors.

When an existing contract comes up for renewal a specific set of guidelines relating to that contract will be provided which clearly identify the language requirement e.g. a catering contract will specify the requirement for bilingual menus and a contract for security staff will highlight a requirement to be able to meet and greet in both Welsh and English.

11.9. Each business unit which uses agents or contractors to deliver services on our behalf in Wales is required to monitor and report annually on their compliance with this scheme.

# 12 Boddhad, Cwynion a Monitro

12.1. Rydym yn cynnal ymchwil gyda siaradwyr Cymraeg ledled Cymru i geisio deall yn well eu hanghenion o ran ein gwasanaethau digidol a digidol gyda chymorth

12.2. Cyfarwyddwr Cyflawni Cymru sydd yn bennaf gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun ac yn sicrhau bod y monitro'n weithgarwch strwythuredig, parhaus sy'n cynnwys y sawl sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaeth ar ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

12.3. Bydd trefn ar gael i ymgorffori awgrymiadau ar gyfer gwella neu sylwadau a bydd y rhain yn cael eu croesawu a'u cofnodi ar ein cafe log (cofnod Cwynion a Chanmoliaethau).

12.4. Os dymunwch gwyno ynghylch Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyflawni ei ymrwymiadau yn unol â'r Cynllun hwn, dylech ysgrifennu yn y lle cyntaf at Reolwr y llys neu swyddfa'r tribiwnlys sy'n destun y gŵyn, oherwydd iddo wneud neu beidio â gwneud rhywbeth. Gallwch hefyd gyflwyno eich cwyn ar-lein yn Gymraeg drwy ein system cyflwyno cwynion ar Resolver.

https://www.resolver.co.uk/

12.5. Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb gan y Rheolwr y llys neu dribiwnlys, cewch ysgrifennu at y Pennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg. Ar ôl ymgynghori â'r llys/swyddfa, bydd yn ymateb i'r achwynydd ar ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

12.6. Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb gan y Pennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg, cewch gysylltu â'r Cyfarwyddwr Cyflawni

# Satisfaction, Complaints and Monitoring

12.1. We are undertaking user research with Welsh speakers across Wales to better understand their needs in relation to our digital and assisted digital services.

12.2. The Delivery Director for Wales has overall responsibility for monitoring and reviewing the Scheme and ensures that the monitoring is a structured and continuing activity which includes those who provide or administer service on HM Courts & Tribunals Service's behalf.

12.3. Provision will be made to incorporate suggestions for improvement or comments, which will be welcomed and recorded on our cafe log (Complaint and Praise record).

12.4. If you wish to complain about HM Courts & Tribunals Service meeting its commitments in accordance with this Scheme you should in the first place contact the manager of the court or tribunal office, whose actions or inaction gave rise to the complaint. You can also lodge your complaint online in Welsh through our Resolver complaint lodgement system.

https://www.resolver.co.uk/

12.5. If you are not satisfied with the reply from the court or tribunal manager, you may write to the Head of Welsh Language Services. After consulting the court/office, he will reply to the complainant on behalf of HM Courts & Tribunals Service.

12.6. If you are not satisfied with the reply from the Head of Welsh Language Services you may contact the Delivery Director for

(gweler Atodiad v. i gael y cyfeiriad). Pe byddwch dal i fod yn anfodlon, cewch yn y pen draw gyfeirio eich cwyn at Gomisiynydd y Gymraeg.

12.7. Os bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyfeirio cwyn am y Cynllun i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a bod y gŵyn honno wedi'i derbyn yn uniongyrchol, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn dilyn y drefn a nodir uchod. Fodd bynnag, bydd Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn cael copi o'r ymateb.

12.8. Os bydd Comisiynydd y Gymraeg yn penderfynu archwilio i'r gŵyn, dilynir pa drefn bynnag ag y bydd y Comisiynydd yn ei ystyried yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r achos. Fe all hyn olygu bod Comisiynydd y Gymraeg yn gadael i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM barhau i gynnal yr ymchwiliad drwy ddilyn ei god ei hun gan adrodd ar y canfyddiadau; neu fe allai olygu bod y Comisiynydd yn ymchwilio i'r mater ei hun gyda chydweithrediad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

12.9. Unwaith bydd yr ymchwiliad ar ben, yn unol ag Adran 19 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn anfon copi o ganlyniadau ei ganfyddiadau at y Prif Weithredwr ac at Gyfarwyddwr Cyflawni Cymru.

12.10. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn monitro gweithredu'r Cynllun a'i effeithiolrwydd fel a ganlyn:

Ceir rhestr wirio Cymraeg yn seiliedig ar ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg y mae'n rhaid i reolwyr ei lenwi fel rhan o'u

Wales (see Annex v. for address). If you are still not satisfied you may ultimately refer your complaint to the Welsh Language Commissioner.

12.7. If the Welsh Commissioner refers to HM Courts & Tribunals Service a complaint about the Scheme, which they have received directly, the Head of Welsh Language Services will follow the practice set out above. However, in addition the Welsh Language Commissioner will also receive a copy of the response.

12.8. Where the Welsh Language Commissioner decides to investigate the complaint, the procedure will be such as the Commissioner considers appropriate to the circumstances of the case. This may result in the Welsh Language Commissioner allowing HM Courts & Tribunals Service to continue conducting the investigation according to its own code and report on its findings; or in the Commissioner conducting the investigation herself with the cooperation of HM Courts & Tribunals Service.

12.9. Once the investigation is completed, in accordance with Section 19(1) of the Welsh Language Act, the Welsh Language Commissioner will send a copy of the results of its findings to the Chief Executive and to the Delivery Director for Wales.

12.10. HM Courts & Tribunals Service monitor the implementation of the Scheme and its effectiveness as follows:

There is a Welsh language checklist based on Welsh Language Scheme requirements that managers have to complete as part

hadroddiadau chwarterol ar weithredu safonol.

Mae gan Ffwrdd Rheoli Cymru drosolwg strategol o weithrediad y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn aelod o Dîm Rheoli Cymru, a bydd yn darparu adroddiad pan fo angen ynghylch cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y materion sy'n peri'r pryder mwyaf mewn perthynas â chydymffurfio gyda'n Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cofnodi ar gofrestr Pryderon y Bwrdd.

## Adroddiad Blynyddol

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn darparu Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd Y Gymraeg, mewn ffurf gymeradwy drwy adrodd ar y dangosyddion perfformiad a nodir yn Atodiad iii.

Dalier sylw: nid oes dim yn y drefn hon sy'n atal achwynydd rhag cyfeirio cwyn at y Comisiynydd Gweinyddol Seneddol ("yr Ombwdsmon").

of their quarterly standard operating control returns

The Wales Management Board has a strategic overview of the courts and tribunals operation in Wales. The Head of Welsh Language Services is a member of the Wales Management Team and will provide reports as and when required on compliance with the Welsh Language Scheme. Matters of urgent concern in relation to compliance against our Welsh Language Scheme will be recorded on the Boards Concerns register.

## Annual Report

HM Courts & Tribunals Service provide the Welsh Language Commissioner with an Annual Report, in an approved form by reporting on the performance indicators noted in Annex iii.

Note: nothing in this procedure prevents a complainant from referring their complaint to the Parliamentary Commissioner for Administration ("the Ombudsman").

# 13 Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

13.1. Bydd copïau o'r Cynllun hwn ar gael ar-lein ar gov.uk

# Publicising the scheme

13.1. Copies of this Scheme will be available online on gov.uk

# Atodiad i.

## Cyfarwyddiadau Ymarfer ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn achosion yn y llysoedd sifil yng Nghymru

Diben y Cyfarwyddiadau Ymarfer hyn yw adlewyrchu egwyddor Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

### 1. Cyffredinol

Mae'r Cyfarwyddiadau Ymarfer hyn yn berthnasol i achosion sifil mewn llysoedd yng Nghymru.

Bydd yr ymarfer presennol o gynnal gwrandawiad yn gyfan gwbl yn y Gymraeg ar sail ad hoc a heb rybudd yn parhau'n ddilys pan fo pob parti a phob tyst sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achos ar y pryd yn cytuno iddo gael ei gynnal felly.

Ym mhob achos lle y bydd tyst neu barti o bosibl am ddefnyddio'r Gymraeg [neu lle o bosibl y defnyddir y Gymraeg mewn unrhyw ddogfen a gyflwynir gerbron y llys], cyfrifoldeb y parti neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol yw hysbysu'r llys o hyn fel y gellir gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli a rhestru'r achos.

Os achosir costau yn sgil methu â chydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn, gellir codi gorchymyn costau yn erbyn y parti neu ei gynrychiolydd cyfreithiol.

# Annex i.

## Practice Direction relating to the use of the Welsh language in cases in the civil courts in Wales

The purpose of this Practice Direction is to reflect the principle of the Welsh Language Act 1993 that in the administration of justice in Wales, the English and Welsh languages should be treated on the basis of equality.

### 1. General

This Practice Direction applies to civil proceedings in courts in Wales.

The existing practice of conducting a hearing entirely in the Welsh Language on an ad hoc basis and without notice will continue to apply when all parties and witnesses directly involved at the time consent to the proceedings being so conducted.

In every case in which it is possible that the Welsh language may be used by any party or witness [or in any document which may be placed before the court], the parties or their legal representatives must inform the court of the fact so that appropriate arrangements can be made for the management and listing of the case.

If costs are incurred as a result of a party failing to comply with these directions, a costs order can be made against the party or his legal representative.

Pan fydd achos yn cael ei brofi gyda rheithgor, nid yw'r gyfraith yn caniatáu dethol rheithgor mewn modd sy'n galluogi'r Llys i ganfod a yw Rheithiwr yn siarad Cymraeg ai peidio nac i sicrhau Rheithgor y mae ei aelodau yn ddwyieithog i wrando achos lle o bosibl y defnyddir y Gymraeg.

Where a case is tried with a jury, the law does not permit the selection of jurors in a manner which enables the court to discover whether a juror does or does not speak Welsh or to secure a jury whose members are bilingual to try a case in which the Welsh language may be used.

## 2. Yr Holiadur cyfarwyddo

Mewn unrhyw achos lle y mae gofyn i barti lenwi holiadur cyfarwyddo, rhaid iddo gynnwys manylion ynghylch defnydd posibl o'r Gymraeg, h.y. manylion unrhyw berson a ddymunai roi tystiolaeth lafar yn y Gymraeg ac unrhyw ddogfennau yn y Gymraeg (e.e. dogfennau i'w datgelu o dan Ran 31 neu ddatganiadau tystion) y mae'r parti hwnnw'n disgwyl eu defnyddio.

Rhaid i barti gynnwys y manylion a nodir ym mharagraff 2.1 yn yr holiadur cyfarwyddo, hyd yn oed os yw ef eisoes wedi hysbysu'r llys am ddefnydd posibl o'r Gymraeg yn unol â gofynion adran 1 uchod.

## 2. The Directions questionnaire

In any proceedings in which a party is required to complete a directions questionnaire, he must include details relating to the possible use of Welsh i.e. details of any person wishing to give oral evidence in Welsh and of any documents in Welsh (e.g. documents to be disclosed under part 31 or witness statements) which that party expects to use.

A party must include the details mentioned in paragraph 2.1 in the directions questionnaire even if he has already informed the court of the possible use of Welsh in accordance with the provisions of section 1 above.

## 3. Rheoli achosion

Mewn unrhyw wrandawiad yng nghwrs achos bydd y llys yn manteisio ar y cyfle i ystyried a ddylai roi cyfarwyddiadau rheoli achos. I gynorthwyo'r llys, dylai parti neu ei gynrychiolydd cyfreithiol dynnu sylw'r llys at y posibilrwydd y gallai'r Gymraeg gael ei defnyddio yn yr achos, hyd yn oed os yw ef eisoes wedi gwneud hynny wrth gydymffurfio â gofynion eraill y cyfarwyddiadau hyn.

Mewn unrhyw achos pan fydd gofyn i barti lenwi holiadur rhestru a'r parti hwnnw eisoes wedi nodi ei fwriad i ddefnyddio'r Gymraeg, dylai gadarnhau ei fwriad i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr holiadur rhestru, a rhoi unrhyw fanylion na chafodd eu nodi yn yr holiadur cyfarwyddo.

## 3. Case management

At any interlocutory hearing, the court will take the opportunity to consider whether it should give case management directions. To assist the court, a party or his legal representative should draw the court's attention to the possibility of Welsh being used in the proceedings, even where he has already done so in compliance with other provisions of this direction.

In any case where a party is required to complete a listing questionnaire and has already intimated the intention to use Welsh, he should confirm the intended use of Welsh in the listing questionnaire and provide any details which have not been set out in the directions questionnaire.

## 4. Rhestru gan y llys

Bydd rheolwr y dyddiadur, mewn ymgynghoriad â'r barnwr sifil dynodedig, yn sicrhau y bydd achos lle y defnyddir y Gymraeg yn cael ei restru:

a. pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol bosib, gerbron barnwr Cymraeg ei iaith; a

b. lle y bo angen cyfleusterau cyfieithu, mewn llys gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

## 5. Cyfieithwyr

Pryd bynnag y bydd angen cyfieithydd i gyfieithu tystiolaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, bydd y swyddog rhestru yn y llys lle cynhelir yr achos yn cysylltu gyda'r Uned Iaith Gymraeg a fydd yn sicrhau presonldeb cyfieithydd ar y pryd cymwys.

## 6. Tystion a rheithwyr

Wrth i bob tyst gael ei alw, bydd y swyddog llys sy'n gweinyddu'r llw neu'r cadarnhad yn hysbysu'r tyst y gall ef dyngu llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn ôl ei ddymuniad.

Pan gaiff achos ei brofi gan reithgor, bydd y swyddog llys sy'n gweinyddu llwon y rheithwyr yn hysbysu'r rheithwyr mewn llys agored y caiff pob rheithiwr dyngu llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn ôl ei ddymuniad.

## 7. Rôl y barnwr cyswllt

Os cyfyd unrhyw gwestiwn neu broblem ynghylch gweithredu'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, dylid yn y lle cyntaf gysylltu â'r Barnwr Cyswllt dros faterion y Gymraeg.

## 4. Listing by the court

The diary manager, in consultation with the designated civil judge, will ensure that a case in which the Welsh language is to be used is listed:

a. wherever practicable before a Welsh speaking judge; and

b. where translation facilities are needed, at a court with simultaneous translation facilities.

## 5. Interpreters

Whenever an interpreter is needed to translate evidence from English into Welsh or from Welsh into English, the court listing officer in whose court the case is to be heard shall contact the Welsh Language Unit who will ensure the attendance of an accredited interpreter.

## 6. Witnesses and jurors

Where each witness is called, the court officer administering the oath or affirmation will inform the witness that he or she may be sworn or may affirm in Welsh or English as he or she wishes.

Where a case is tried with a jury, the court officer swearing in the jury will inform the jurors in open court that each juror may take the oath or may affirm in Welsh or English as he or she wishes.

## 7. Role of the liaison judge

If any question or difficulty arises concerning the implementation of this Practice Direction, contact should in the first place be made with the Liaison Judge for the Welsh language.

# Atodiad ii.

## Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol Cyfnerthedig

### 23. Defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru

Diben y cyfarwyddyd hwn yw adlewyrchu egwyddor **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993** sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

### Cyffredinol

23.1 Ym mhob achos lle y bydd tystion neu bartïon o bosibl am ddefnyddio'r Gymraeg neu lle o bosibl y defnyddir y Gymraeg mewn unrhyw ddogfen a gyflwynir gerbron y Llys, cyfrifoldeb y cynrychiolwyr cyfreithiol yw hysbysu'r Llys o hyn fel y gellir gwneud trefniadau priodol ar gyfer rhestru'r achos.

23.2 Gall unrhyw barti neu dyst roi tystiolaeth yn Gymraeg mewn llys ynadon yng Nghymru heb orfod rhoi rhybudd ymlaen llaw. Trefnir i wrando'r achosion hyn yn unol â 'Phrotocol y llys ynadon ar restru achosion lle defnyddir yr Iaith Gymraeg'.

23.3 Os gwyddys bod posibilrwydd i'r Gymraeg gael ei defnyddio adeg anfon neu apelio i Lys y Goron, dylid hysbysu'r Llys ar unwaith ar ôl anfon neu pan gofnodir rhybudd o apêl. Fel arall, dylid hysbysu'r Llys cyn gynted ag y gwyddys bod posibilrwydd i'r Gymraeg gael ei defnyddio.

# Annex ii.

## The Consolidated Criminal Practice Direction

### 23. Use of the Welsh language in courts in Wales

The purpose of this direction is to reflect the principle of the **Welsh Language Act 1993** that in the administration of justice in Wales the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

### General

23.1 It is the responsibility of the legal representatives in every case in which the Welsh language may be used by any witness or party or in any document which may be placed before the court to inform the court of that fact so that appropriate arrangements can be made for the listing of the case.

23.2 Any party or witness is entitled to use Welsh in a magistrates' court in Wales without giving prior notice. Arrangements will be made for hearing such cases in accordance with the 'Magistrates Courts' Protocol for listing cases where the Welsh language is used'.

23.3 If the possible use of the Welsh language is known at the time of sending or appeal to the Crown Court, the court should be informed immediately after sending or when the notice of appeal is lodged. Otherwise the court should be informed as soon as possible when the use of the Welsh language becomes known.

23.4 Os achosir costau yn sgil methu â chydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn, gellir codi gorchymyn costau a wastraffwyd yn erbyn y parti, a/neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol, sydd heb gydymffurfio â hwy.

23.5 Nid yw'r gyfraith yn caniatáu dethol Rheithgor mewn modd sy'n galluogi'r Llys i ganfod a yw Rheithiwr yn siarad Cymraeg ai peidio nac i sicrhau Rheithgor y mae ei aelodau yn ddwyieithog i wrando achos lle o bosibl y defnyddir y Gymraeg.

### Gwrandawiadau pledio a chyfarwyddo

23.6 Rhaid i eiriolwr mewn achos lle mae'n bosibl y defnyddir y Gymraeg godi'r mater yn y gwrandawiad rhagarweiniol ac/neu yn y gwrandawiad ple a rheoli achos ac ardystio'r manylion ar holiadur y barnwr fel y gellir rhoi'r cyfarwyddiadau priodol ar gyfer bwrw ymlaen â'r achos.

### Rhestru

23.7 Dylai'r swyddog rhestru, mewn ymgynghoriad â'r barnwr preswyl, sicrhau bod achos lle y defnyddir y Gymraeg yn cael ei restru: (a) pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol bosib, gerbron Barnwr Cymraeg ei iaith; ac (b) mewn Llys yng Nghymru gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

23.4 If costs are incurred as a result of failure to comply with these directions, a wasted costs order may be made against the defaulting party and/or his legal representatives.

23.5 The law does not permit the selection of jurors in a manner which enables the court to discover whether a juror does or does not speak Welsh or to secure a jury whose members are bilingual to try a case in which the Welsh language may be used.

### Plea and directions hearings

23.6 An advocate in a case in which the Welsh language may be used must raise that matter at the preliminary and/or the plea and case management hearing and endorse details of it on the judge's questionnaire so that appropriate directions may be given for the progress of the case.

### Listing

23.7 The listing officer, in consultation with the resident judge, should ensure that a case in which the Welsh language may be used is listed (a) wherever practicable before a Welsh speaking judge, and (b) in a court in Wales with simultaneous translation facilities.

### Cyfieithwyr

23.8 Pryd bynnag y bydd angen cyfieithydd i gyfieithu tystiolaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, bydd y swyddog rhestru yn y llys lle cynhelir yr achos yn cysylltu gyda'r Uned Iaith Gymraeg a fydd yn sicrhau presonldeb cyfieithydd ar y pryd cymwys.

### Rheithwyr

23.9 Wrth annerch y Rheithwyr ar ddechrau cyfnod eu gwasanaeth fel rheithwyr rhaid i Feili'r Rheithgor eu hysbysu y gall pob Rheithiwr dyngu Llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn ôl ei ddymuniad.

23.10 Ar ôl dethol Rheithgor i wrando achos, a chyn tyngu llw, bydd y Swyddog Llys sy'n gweinyddu llwon y Rheithgor yn hysbysu'r Rheithwyr mewn llys agored y caiff pob Rheithiwr dyngu llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn ôl ei ddymuniad.

23.11 Pan ddefnyddir y Gymraeg gan unrhyw barti neu dyst mewn treial, bydd cyfieithydd cydnabyddedig yn cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer y rheithwyr hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i gyfieithu tystiolaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gyfer rheithiwr Cymraeg.

23.12 Rhaid cadw trafodaethau'r rheithgor yn breifat ac ni all unrhyw berson arall fod yn bresennol. Ni ellir felly caniatau i gyfieithydd fod yn bresennol i gyfieithu'r drafodaeth er budd un neu fwy o reithwyr.

### Interpreters

23.8 Whenever an interpreter is needed to translate evidence from English into Welsh or from Welsh into English, the court listing officer in whose court the case is to be heard shall contact the Welsh Language Unit who will ensure the attendance of an accredited interpreter.

### Jurors

23.9 The jury bailiff when addressing the jurors at the start of their period of jury service shall inform them that each juror may take an oath or affirm in Welsh or English as he wishes.

23.10 After the jury has been selected to try a case, and before it is sworn, the court officer swearing in the jury shall inform the jurors in open court that each juror may take an oath or affirm in Welsh or English as he wishes.

23.11 Where Welsh is used by any party or witness in a trial, an accredited interpreter will provide simultaneous translation from Welsh to English for the jurors who do not speak Welsh. There is no provision for the translation of evidence from English to Welsh for a Welsh speaking juror.

23.12 The jury's deliberations must be conducted in private with no other person present and therefore no interpreter may be provided to translate the discussion for the benefit of one or more of the jurors.

## Tystion

23.11 Pan elwir pob tyst bydd y swyddog llys sy'n gweinyddu'r Llw neu'r Cadarnhad yn hysbysu'r tyst y gall dyngu llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn ôl ei ddymuniad. Ni ddylid gofyn i dyst sydd wedi dewis cymryd y llw yn Gymraeg i'w ailadrodd yn Saesneg.

## Agor a chau Llys y Goron

23.12 Oni bai nad yw hi'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, dylid agor a chau'r llys yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

## Rôl y barnwr cyswllt

23.13 Os cyfyd unrhyw gwestiwn neu broblem ynghylch gweithredu'r cyfarwyddiadau uchod, dylid yn y lle cyntaf gysylltu â Barnwr Cyswllt y Gymraeg.

## Witnesses

23.11 When each witness is called the court officer administering the oath or affirmation shall inform the witness that he may be sworn or affirm in Welsh or English as he wishes. A witness who chooses to take the oath in Welsh should not be asked to repeat it in English.

## Opening/closing of Crown Court

23.12 Unless it is not reasonably practicable to do so, the opening and closing of the court should be performed in Welsh and English.

## Role of liaison judge

23.13 If any question or problem arises concerning the implementation of the directions above, contact should in the first place be made with the liaison judge for the Welsh language.

# Atodiad iii. Annex iii.

## LLysoedd Ynadon - Protocol pan ddefnyddir yr Iaith Gymraeg.

### Cefndir

1. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd.

2. Dylid dilyn y canllaw canlynol pan roddir gwybod i'r llys fod parti neu unrhyw dyst yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod unrhyw ran o achos. Dylid nodi, yn unol ag Adran 22(1), Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

3. " Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn".

## Magistrates court - Protocol for when the Welsh Language is used.

### Background

1. Her Majesty's Courts and Tribunal Service has adopted the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales it will treat the English and Welsh languages on a basis of equality.

2. The following guidance should be followed when the court is informed that a party or any of the witnesses wishes to use the Welsh language during any part of the proceedings. It should be noted that in accordance with Section 22(1) of the Welsh Language Act 1993

3. " In any legal proceedings in Wales the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it, subject in the case of proceedings in a court other than a magistrates' court to such prior notice as may be required by rules of court; and any necessary provision for interpretation shall be made accordingly."

4. Felly, mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn rhoi'r hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad llys, ond nid yw'n rhoi'r hawl i gael gwrandawiad cyfan gwbl Gymraeg e.e. os yw diffynnydd yn dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg, nid yw'n rhoi'r hawl i unrhyw dystiolaeth arall a roddir gan dyst yn Saesneg, gael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Fodd bynnag, gellir cael gwrandawiadau cyfan gwbl Gymraeg ar rai achlysuron oherwydd bod yr holl bartïon perthnasol yn ddwyieithog.".

5. Mater o ddewis i'r unigolyn ei hun yw defnyddio'r iaith. Ei ddewis ef neu ei dewis hi yw'r ffactor pwysig yn hytrach nag unrhyw anhawster i ddeall. Felly, mae gan unigolyn sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn achos yr hawl i wneud hynny ac ni ddylai fod gofyn iddo gyfiawnhau hynny na chyfyngu ar faint o ddefnydd a wna o'r iaith. Nid yw'r ffaith bod yr unigolyn yn ddwyieithog ac yn gymwys yn y Saesneg yn effeithio nac yn cyfyngu ar ei hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. O ran egwyddor cydraddoldeb, mae'n hanfodol nad yw defnyddio'r iaith Gymraeg yn arwain at unrhyw anfantais i unrhyw un o'r partïon na'r tystion oherwydd oedi cyn rhestru neu ddiffygion yn y trefniadau a wneir i gael cyfieithu ar y pryd.

6. Mae'r protocol hwn yn berthnasol i bob achos a gynhelir yn y llysoedd ynadon, gan gynnwys gwrandawiadau sifil, teulu, ieuenctid, gorfodi dirwyon ac unrhyw wrandawiadau panel arbenigol.

4. The Welsh language Act, therefore, gives the right to speak Welsh in a court hearing, but does not give the right to a hearing entirely through the medium of Welsh eg. if a defendant elects to give evidence in Welsh it does not give the right for any other evidence given by a witness in English to be translated into Welsh. However, there could be occasions where an entire hearing does take place in Welsh due to all the relevant parties being bilingual.

5. It is the individual's choice to use the Welsh language.The important factor is his or her choice rather than any difficulty with his or her understanding. Accordingly, the individual who wishes to use the Welsh language in the proceedings, has the right to do so and should not be required to justify or limit the extent to which he does so.The fact that the individual is bilingual and is competent in English does not affect or limit his right to use the Welsh language. Having regard to the principle of equality, it is essential that the use of the Welsh language does not result in any disadvantage to any of the parties or the witnesses by reason of delay in listing or deficiencies in the arrangements made for interpretation.

6. This protocol applies to all proceedings conducted in the magistrates' courts including civil, family, youth, fines enforcement and any specialist panel hearings.

## Cyn y gwrandawiad

1. Nid yw'n ofynnol bod unigolyn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw mewn Llys Ynadon cyn defnyddio ei hawliau o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 ond doeth fyddai gwneud hynny er mwyn hwyluso'r trefniadau ac i osgoi gorfod gohirio.

2. Pan dderbynnir rhybudd ymlaen llaw, cymerir y camau priodol er mwyn galluogi'r achos fynd yn ei flaen, naill ai trwy sicrhau bod yr holl bobl perthnasol yn siarad Cymraeg neu sicrhau bod cyfieithydd yn bresennol.

3. Pan na fydd rhybudd ymlaen llaw yn cael ei dderbyn ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg, rhaid gwneud pob ymdrech i fynd ymlaen gyda'r achos heb ohiriad. Bydd newid cyfansoddiad y fainc, a/neu newid y cynghorydd cyfreithiol neu unrhyw eiriolwr yn cael eu hystyried, neu gysylltu ag Uned yr Iaith Gymraeg i drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Dylid gohirio'r achos dim ond os nad oes modd gwneud trefniadau ar y diwrnod. Darperir esiamplau o'r trefniadau y gellir eu gwneud yn Atodiad A.

4. Dylid cymryd pob cam rhesymol i sefydlu dewis iaith diffynyddion, partïon a thystion ym mhob gwrandawiad rheoli achos, adolygiad cyn treial a gwrandawiad pennu treial.

## Pre-hearing

1. There is no obligation on an individual to give prior notice in the Magistrates Court before exercising rights under the Welsh Language Act 1993 but it is sensible to do so to facilitate the making of arrangements and avoid adjournments.

2. When prior notice is received appropriate steps be taken to enable the case to proceed either by ensuring that all relevant persons speak Welsh or for an interpreter to be in attendance.

3. Where no prior notice is received that the Welsh language will be used, best endeavours should be made for that case to proceed without adjournment. Consideration will be given to changing the constitution of the bench, and or legal adviser, or any advocate or contacting the Welsh Language Unit for an interpreter to attend. Only if arrangements can not be made on the day should the matter be adjourned. Examples are provided at Annexe A of arrangements that can be made.

4. Every case management, pre-trial review or trial fixing hearing should take reasonable steps to establish the language choice of defendants, parties and witnesses.

5. Yn y gwrandawiad cyntaf yn y llys achosion teulu, rhaid i'r cynghorydd cyfreithiol, y cydymaith llys, neu'r Barnwr Rhanbarth gymeryd pob cam rhesymol i gael gwybod a fydd unrhyw barti'n dymuno defnyddio'r iaith Cymraeg yn yr achos. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau beth yw iaith gyntaf unrhyw blentyn sy'n rhan o'r achos, a lle bo hynny'n briodol, sicrhau bod Gwarcheidwad dwyieithog yn cael ei bennu/phennu i weithredu ar ran y plentyn.

6. Pan fydd rhaid gohirio achos, fel bod parti yn cael defnyddio'r iaith Gymraeg, dylai cadeirydd y fainc/y cynghorydd cyfreithiol neu'r Barnwr Rhanbarth egluro wrth ohirio'r achos bod pob ymdrech wedi'i wneud i alluogi mynd ymlaen â'r achos ar y diwrnod hwnnw.

7. Mewn perthynas â threialon pan geir rhybudd ymlaen llaw, bydd y llys yn gwneud trefniadau i'r ynadon/y Barnwr Rhanbarth a'r cynghorydd cyfreithiol/cydymaith llys fod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, pan fydd treialon o'r fath yn hir ac yn/neu'n gymhleth, neu er gwaethaf gwneud bob ymdrech i gael ynadon/Barnwr Rhanbarth dwyieithog ond nad oes rhai ar gael, dylid gwneud trefniadau i gyfieithwyr ar y Pryd fod yn bresennol ar gyfer unrhyw barti di-Gymraeg sy'n rhan o'r achos, gan gynnwys ynadon/Barnwr Rhanbarth, cynghorydd cyfreithiol/cydymaith Llys ac eiriolwyr y llys.

5. At the first hearing in the family court, the legal adviser, court associate or District Judge shall take reasonable steps to ascertain whether any party wishes to use the Welsh language in the proceedings. It is particularly important to ascertain the first language of any child who is the subject of the proceedings and where appropriate, ensure that a bilingual Guardian is appointed to act for the child.

6. In the event a case has to be adjourned so that a party may use the Welsh language the chairman of the bench/legal adviser or District Judge should in adjourning explain all efforts that were made to enable the case to proceed that day.

7. In relation to trials when prior notice is received, the court will make arrangements for the magistrates/District Judge and legal adviser/court associate to be bilingual. However when such trials are lengthy and/or complex or despite best endeavours bilingual magistrates/District Judge are not available; arrangements may be made for interpreters to be used for any non Welsh speaking party to the case, including magistrate/District Judge, legal Adviser/court associate and court advocates.

8. Pan fydd rhaid gohirio achos, fel bod parti yn cael defnyddio'r iaith Gymraeg, dylai cadeirydd y fainc/y cynghorydd cyfreithiol neu'r Barnwr Rhanbarth egluro wrth ohirio'r achos bod pob ymdrech wedi'i wneud i alluogi mynd ymlaen â'r achos ar y diwrnod hwnnw.

9. Ar gyfer dibenion monitro, bydd pob llys yn cadw cofnod o bob achos lle ddefnyddir yr iaith Gymraeg. Dylai cynghorwyr cyfreithiol gadw cofnod o bob achos lle defnyddir yr iaith Gymraeg hefyd.

## Cyfieithwyr

10. Pan fydd unrhyw unigolyn yn dewis rhoi tystiolaeth yn y Gymraeg, fe all unrhyw gwestiynau a ofynnir yn Saesneg gael eu cyfieithu i'r Gymraeg er ei fudd. Pan fydd y llys yn ymwybodol y bydd cryn dipyn o dystiolaeth yn cael ei chyflwyno, gan arwain at wrandawiad hir, dylid ystyried cael dau gyfieithydd yn bresennol, gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y cyfieithwyr yn cael seibiant rheolaidd ac aml, heb oedi neu ymestyn hyd y gwrandawiad yn ddiangen. Bydd y llys ar ol ymgynghori gydag Uned yr Iaith Gymraeg ac os bydd yn ystyried ei bod yn briodol, yn penderfynu ar nifer y cyfieithwyr sydd eu hangen.

8. Where a case can and does proceed entierly through the medium of Welsh the chairman/legal adviser or District Judge/court associate may pronounce the decision of the court in both Welsh and English if that is necessary for the benefit of other individuals, not party to the proceedings, who may be present in court who are not bilingual e.g. the press.

9. For monitioring purposes, a record will be kept by all courts of cases where the Welsh language is used. Legal advisers should record the use of the Welsh language as directed.

## Interpreters

10. When any individual chooses to give evidence in Welsh, any questions put in English, may be translated into Welsh if that assists the individual in giving his/her evidence in Welsh. When the court is aware that there will be a substantial amount of evidence given leading to a lengthy hearing, consideration should be given whether two interpreters should be arranged, this is so that the interpreters have regular and frequent breaks without delaying or extending the length of the hearing unnecessarily. The court having consulted the Welsh Language Unit and if it considers it appropriate to do so shall decide on the number of interpreters required.

11. Er mwyn trefnu cael cyfieithydd ar y pryd Cymraeg yn bresennol, dylai'r llys anfon y ffurflen berthnasol i Uned yr Iaith Gymraeg, a fydd yn trefnu bod cyfieithydd addas ar gael.

12. Dylid rhoi pob cymorth i'r cyfieithwyr i baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Bydd Uned yr Iaith Gymraeg yn gwneud cais trwy e-bost i roi copïau o'r cyhuddiad/gŵys ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, megis datganiadau tystion, i'r cyfieithydd ar ddiwrnod y gwrandawiad. Fel hyn, bydd gan y cyfieithydd amser i baratoi a nodi unrhyw derminoleg anarferol neu arbenigol a allai gael ei ddefnyddio yn y gwrandawiad.

Er mwyn trefnu cael cyfieithydd ar y pryd Cymraeg yn bresennol, dylai'r llys anfon y ffurflen berthnasol i Uned yr Iaith Gymraeg, a fydd yn trefnu bod cyfieithydd addas ar gael.

## Offer Cyfieuthu

13. Bydd Uned yr Iaith Gymraeg yn egluro i'r cyfieithydd penodedig p'un a fyddant yn dod ag offer cyfieithu eu hunain, neu'n defnyddio offer cyfieithu'r llys.

14. Os oes angen i'r cyfieithydd ddefnyddio offer y llys, bydd Uned yr Iaith Gymraeg yn anfon e-bost at reolwr cyflawni'r llys o leiaf 7 diwrnod cyn y gwrandawiad i sicrhau bod offer cyfieithu'r llys yn gweithio'n iawn, a bod digon o glustffonau ar gael.

15. Mewn achosion lle mae mesurau arbennig wedi'u caniatáu ar gyfer tyst, a bod angen defnyddio cyfieithydd, rhaid i'r llys gysylltu ag Uned yr Iaith Gymraeg am gyfarwyddiadau.

11. In order to secure the services of a Welsh interpreter the court should forward the relevant form to the Welsh Language Unit who will ensure the services of a suitable interpreter.

12. The interpreters should be given every assistance in preparing for the hearing. The Welsh Langauge Unit will request by e-mail that copies of charge/summons, and any other relevent doucments, such as witness statements be made available to the interpreter on the date of hearing. Thus allowing the interpreter time to prepare and to note any unusual or specialist terminology which may be used during the hearing.

Er mwyn trefnu cael cyfieithydd ar y pryd Cymraeg yn bresennol, dylai'r llys anfon y ffurflen berthnasol i Uned yr Iaith Gymraeg, a fydd yn trefnu bod cyfieithydd addas ar gael.

## Translation Equipment

13. The Welsh Langugae Unit will clarify with the appointed interpreter whether they will provide and use their own translation equipment, or whether they will use court translation equipment.

14. Where court equipment is to be used; at least 7 days before the hearing the Welsh language Unit will e-mail the court delivery manager to ensure that court translation equipment is in good working order and that sufficient headsets are available.

15. In cases where special measures have been granted for a witness and interpreters are to be used the Welsh Language Unit must be contacted by the court for guidance.

# Atodiad A

Mater i'r llys fydd defnyddio unrhyw un o'r opsiynau a nodir isod, a dylid cyhoeddi'r penderfyniad mewn llys agored.

1. Mewn achos lle nad oes tystiolaeth yn cael ei rhoi a bod ffeithiau'n syml a chymharol dibwys e.e. meddw ac afreolus neu oryrru ac mai dim ond y cadeirydd sy'n ddwyieithog, gellir bwrw ymlaen â'r achos gyda'r cadeirydd yn cyfieithu yn y llys neu yn yr ystafell ymneilltuo cyn dedfrydu.

2. Pan fydd mwy nag un llys yn eistedd, efallai y bydd yn bosibl ymneilltuo i ad-drefnu aelodaeth y meinciau fel bod modd ffurfio mainc ddwyieithog.

3. Mewn achos lle mae'r partïon i gyd yn ddwyieithog ar wahân i'r erlynydd neu'r swyddog prawf, efallai y bydd yn bosibl defnyddio'r Barnwr Rhanbarth, cynghorydd cyfreithiol neu gydymaith llys i gyfleu'r wybodaeth neu gynorthwyo'r swyddogion hynny.

4. Lle mae'r llys yn cynnwys ynad(on) ac/neu cynghorydd cyfreithiol/ cydymaith llys neu Farnwr Rhanbarth sy'n ddwyieithog, yna efallai y bydd yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gymryd y ple neu ymdrin â materion rhagarweiniol eraill cyn ystyried sut i fynd ymlaen â'r achos.

# Annex A

Applying any of the following options will be a matter for the court and its decision should be announced in open court

1. In a case where evidence is not given and the facts are simple, straightforward and relatively minor e.g. drunk and disorderly or speeding and only the chairman is bilingual, matters can proceed with the chairman translating in court or in the retiring room before sentencing.

2. When more than one court is sitting it may be possible to retire to arrange for the benches to be reconstituted to allow a bilingual bench to be formed.

3. In a case where all the parties are bilingual with the exception of the prosecutor or probation officer it may be possible to use the District Judge, legal adviser or court associate to inform or assist those officers.

4. Where the court is constituted of a magistrate(s) and or a legal adviser/ court associate or District Judge who is bilingual then it may be possible for that individual to take the plea or deal with other preliminary matters before considering how the case should further proceed.

5. Lle nad yw'r fainc yn ddwyieithog ond fod y cynghorydd cyfreithiol yn ddwyieithog, efallai y bydd yn bosibl i'r trefniadau cyn treial gael eu gwneud gyda'r cynghorydd cyfreithiol yn gweithredu fel cyfieithydd i'r fainc neu gall y cynghorydd cyfreithiol ddelio â'r materion i gyd ei hun lle maent o fewn ei b/phwerau dirprwyedig barnwrol ef neu hi.

5. Where the bench is not bilingual but the legal adviser is bilingual it may be possible for pre-trial arrangements to be made with the legal adviser acting as an interpreter for the bench or the legal adviser can deal with all matters where they are within his or her judicial delegated powers.

Yr Anrhydeddus Mrs Ustus Nicola Davies

The Honourable Mrs Justice Nicola Davies

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lewis

The Honourable Mr Justice Lewis

**Fersiwn 2 – Diwygiwyd Mawrth 2017**

**Version 2 – Amended March 2017**

# Atodiad iv. Annex iv.

## Dangosyddion perfformiad

### Gweithredu a monitro'r cynllun

DP1 Canran staff sy'n gallu siarad Cymraeg fesul gweithle.

DP2 Canran y llysoedd/swyddfeydd tribiwnlys sy'n adlewyrchu proffil ieithyddol yr ardal a wasanaethir ganddynt.

DP3 Canran staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i lefel penodol yn ystod y flwyddyn.

DP4 Canran staff sy'n dysgu Cymraeg.

DP5 Nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

### Trefniadau gweinyddol

DP6 Nifer a chanran o gytundebau a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio a gofynion y cynllun iaith.

## Performance indicators

### Implementing and monitoring the scheme

PI1 Percentage of staff that can speak Welsh in each workplace.

PI2 Percentage of courts/tribunal offices that reflect the language profile of the areas they serve.

PI3 Percentage of staff that have received training to a specific level during the year.

PI4 Percentage of staff that are learning Welsh.

PI5 Number and percentage of staff that have received language awareness training.

### Administrative arrangements

PI6 Number and percentage of agreements monitored that comply with the language scheme.

# Atodiad v.

## Rhestr o gyfeiriadau a rhifau ffôn defnyddiol

**Llinell Gymorth Gymraeg:** 0800 212 368

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru**

**Cyfeiriad:** Uned Gefnogi Cymru
Llawr 1af, Llys Ynadon Caerdydd
Plas Fitzalan
Caerdydd CF24 0RZ

**Cofrestrfa Brofiant Cymru**
(yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun hwn yn y gwasanaeth profiant yng Nghymru)

**Cyfeiriad:** Y Rheolwr Profiant
Cofrestrfa Brofiant Cymru
3ydd Llawr, Llys Ynadon Caerdydd
Plas Fitzalan
Caerdydd CF24 0RZ

**Ffôn:** 02920 474 373
**Ffacs:** 02920 456 411

**Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu**
(yn gyfrifol am y Gwasanaeth yng Nghymru a Lloegr)

**Cyfeiriad:** First Avenue House
42-49 High Holborn
Llundain WC1 6NP

**Ffôn:** 020 7947 6945
**Ffacs:** 020 7947 6946

**Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

**Cyfeiriad:** Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon
Ffordd Llanberis
Caernarfon
Gwynedd LL55 2DF

**Ffôn:** 01286 669 800
**Ffacs:** 01286 669 797

# Annex v.

## Useful addresses and telephone numbers

**Welsh Language Helpline:** 0800 212 368

**HM Courts & Tribunals Service Wales**

**Address:** Wales Support Unit
1st Floor, Cardiff Magistrates' Court
Fitzalan Place
Cardiff CF24 0RZ

**Probate Registry of Wales**
(responsible for the operation of this Scheme in the probate service in Wales)

**Address:** Probate Manager
Probate Registry of Wales
3rd Floor, Cardiff Magistrates' Court
Fitzalan Place
Cardiff CF24 0RZ

**Telephone:** 02920 474 373
Fax: 02920 456 411

**Principal Registry of the Family Division**
(responsible for the Service in Wales and England)

**Address:** First Avenue House
42-49 High Holborn
London WC1 6NP

**Telephone:** 020 7947 6945
**Fax:** 020 7947 6946

**HM Courts & Tribunals Service Welsh Language Unit**

**Address:** Caernarfon Criminal Justice Centre
Llanberis Road
Caernarfon
Gwynedd LL55 2DF

**Telephone:** 01286 669 800
**Fax:** 01286 669 797

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd Rhagfyr 2017

HM Courts & Tribunals Service
© Crown Copyright
Produced December 2017

www.gov.uk